

Rhif: WG15475



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

**Ardaloedd Draenio Mewnol a
Byrddau Draenio Mewnol y mae'r
Cyfan neu Ran Helaeth Ohonynt
yng Nghymru: Ymgynghoriad**



Dyddiad cyhoeddi: 29 Mai 2012
Ymatebion erbyn: 31 Awst 2012

Trosolwg

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cyflwyno tri opsiwn ar gyfer cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru yn y dyfodol.

Wrth geisio eich barn ar yr opsiynau hyn mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cynnwys gwybodaeth am swyddogaethau'r Byrddau Draenio Mewnol, y newidiadau ehangach i'r system lle maent yn gweithredu a chrynodeb o'r materion i'w hystyried.

Sut i ymateb

Gofynnir nifer o gwestiynau yn Adran 3 o'r ddogfen ymgynghori hon a byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau hyn ac unrhyw sylwadau perthnasol eraill a all fod gennych.

Ceir ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yng nghefn y ddogfen ymgynghori hon. Fel arall dylid anfon ymatebion copi caled neu electronig i'r cyfeiriadau isod erbyn 31 Awst 2012.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig
Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae Atodiad B i'r ddogfen ymgynghori hon yn cynnwys rhestr fanwl o'r dogfennau y byddwch, o bosibl, am eu hystyried wrth lunio eich ymateb yn ogystal â manylion cyswllt sefydliadau eraill y gall fod ganddynt wybodaeth berthnasol, gan gynnwys y Byrddau Draenio Mewnol.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Yr Is-adran Lleoedd Cynaliadwy

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

neu

floodcoastalrisk@wales.gsi.gov.uk.

Os byddwch yn cyflwyno ymateb neu ymholiad electronig defnyddiwch y pennawd "Ymateb i Ymgynghoriad ar Fyrddau Draenio Mewnol 2012" i'r neges.

Diogelu data

Sut y caiff eich barn a'r wybodaeth a roddwch i ni eu defnyddio.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y cyfeirir atynt yn yr ymgynghoriad hwn. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb atom. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Rhagair gan y Gweinidog

Mae Byrddau Draenio Mewnol yn gyrrff statudol annibynnol sy'n gyfrifol am y gwaith o ddraenio tir mewn ardaloedd ag anghenion draenio arbennig yng Nghymru a Lloegr. Maent yn gyrrff cyhoeddus sefydlog sy'n goruchwyllo rheolaeth lefelau dŵr yn lleol ac yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o reoli perygl llifogydd yn eu hardaloedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ac ym mis Tachwedd 2011 lansiais y Strategaeth Genedlaethol gyntaf ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru yn y Borth, Ceredigion.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi polisiâu ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli'r peryglon sy'n wynebu ein cymunedau. Mae'n egluro swyddogaethau'r rhai sy'n ymwneud â'r gwaith o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, gan gynnwys Byrddau Draenio Mewnol, ac yn nodi'n glir y byddwn yn mabwysiadu ffordd holistaidd o weithio sy'n medru addasu ar gyfer hinsawdd sy'n newid ac anghenion cymunedau unigol.

Ond er mwyn i ni fabwysiadu ffordd gwbl holistaidd o weithio, mae angen i ni edrych y tu hwnt i'r sector rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Rhaid i ni ystyried ein defnydd o'r tir sydd o'n cwmpas ac effaith hynny ar lefel y peryglon rydym yn eu hwynebu, yn ogystal â'r cyfleoedd i fynd i'r afael â'r peryglon hynny a'u lleihau. Mae'n Byrddau Draenio Mewnol yn gyfarwydd iawn â'r ffordd hon o weithio, ac yn brofiadol iawn ynddi.

Bu Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau o reoli adnoddau naturiol Cymru er budd ein pobl, ein heconomi a'n hamgylchedd. Yn gynharach y mis hwn, cyhoeddais fy mwriad i greu corff newydd gan ddwyn ynghyd swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru i ffurfio un corff i fod yn gyfrifol am reoli ein hadnoddau naturiol.

Yn y cyd-destun hwnnw rwyf wedi penderfynu y dylid adolygu'r ffordd y mae'r Byrddau Draenio Mewnol sy'n llwyr neu'n bennaf yng Nghymru yn cyflawni eu swyddogaethau.

Mae Byrddau Draenio Mewnol yn gwneud gwaith pwysig ym meysydd draenio tir a rheoli lefelau dŵr, ac mae eu gwybodaeth a'u swyddogaethau yn hanfodol ar gyfer gweithredu'r dull holistaidd hwn. Byddai cynnwys eu swyddogaethau o fewn corff unigol yn atgyfnerthu ein gallu i weithredu'r dull holistaidd hwn o reoli tir a lefelau dŵr, rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, a rheolaeth ehangach o'n hadnoddau naturiol, gan ymgorffori eu gwybodaeth leol bwysig yn ein dulliau gweithredu.

Gan adeiladu ar gynnwys fy argymhellion ar gyfer sefydlu a chyfarwyddo corff newydd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru, rwyf am glywed eich sylwadau ar dri opsiwn ar gyfer cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru yn y dyfodol. Edrychaf ymlaen at eu cael.

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Adran 1 – Byrddau Draenio Mewnol y mae'r Cyfan neu Ran Helaeth Ohonynt yng Nghymru

- Swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol
- Byrddau Draenio Mewnol y mae'r Cyfan neu Ran Helaeth Ohonynt yng Nghymru
- Ardaloedd Draenio Mewnol a weinyddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd
- Ariannu Byrddau Draenio Mewnol
- Trefniadau Archwilio

Adran 2 – Opsiynau ar gyfer y Dyfodol

- Opsiwn 1 – Cyflawni drwy Fyrddau Draenio Mewnol yn unol â'r trefniadau presennol
- Opsiwn 2 – Cyflawni drwy Fyrddau Draenio Mewnol, gyda newidiadau i drefniadau sefydliadol
- Opsiwn 3 – Cyflawni drwy unrhyw gorff unigol
- Yr Opsiwn a Ffeirir gan Lywodraeth Cymru
- Ardaloedd Draenio Mewnol a weinyddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd

Adran 3 – Amseru a Chamau Nesaf

- Ymateb i'r Ymgynghoriad
- Materion Eraill i'w Hystyried
- Amserlen ar gyfer Penderfyniadau

Atodiad A - Rhestr Termiau

Atodiad B – Rhestr o Ddogfennau Perthnasol

Atodiad C – Adolygiadau o Swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yn y Gorffennol

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Crynodeb Gweithredol

1. Dengys amcangyfrifon cyfredol fod un o bob chwe eiddo yng Nghymru yn wynebu'r risg o lifogydd o afonydd, y môr a dŵr wyneb. Mae tua 400,000 o bobl yn byw ac yn gweithio yn ein gorlifdiroedd ac mae gwerth £8 biliwn o'n hasedau yn agored i lifogydd ac erydu arfordirol.
2. Mae amcanestyniadau ar gyfer newid yn yr hinsawdd yn awgrymu y gall Cymru ddisgwyl gweld patrymau glawiad gwahanol yn y dyfodol, ynghyd â lefelau'r môr sy'n codi. Mae'r amcanestyniadau hyn yn awgrymu y byddwn yn gweld llifogydd amlach a mwy difrifol yng Nghymru yn y dyfodol, ynghyd â lefelau uwch o erydu arfordirol. Bydd mwy o bobl, eiddo a seilwaith mewn perygl.
3. Mae'r lefel gynyddol o risg yn golygu na fydd yn bosibl ond parhau i adeiladu mwy o systemau draenio ac amddiffynfeydd a'r rheini'n fwy o faint. Ni fyddai hynny'n gynaliadwy yn economaidd nac yn amgylcheddol a byddai'n cynyddu'r risg yr achosir difrod difrifol os bydd llifogydd yn gorlifo amddiffynfeydd.
4. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Cymru wedi symud tuag at ymateb sy'n seiliedig ar egwyddorion rheoli risg, gan ddarparu dull cyfannol o reoli'r risgiau, eu canlyniadau a'r effeithiau ehangach ar gymunedau yng Nghymru. Mae hwn yn newid sylfaenol yn y ffordd rydym yn ymdrin â llifogydd ac erydu arfordirol ac mae'n cynnwys mynd i'r afael â'r risgiau ar bob lefel o'r Llywodraeth i'r unigolyn.

Y Strategaeth Genedlaethol

5. Ym mis Tachwedd 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y *Strategaeth Genedlaethol gyntaf ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru*¹.
6. Mae'r Strategaeth Genedlaethol, a luniwyd o dan delerau Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, yn nodi pedwar amcan cyffredinol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru:
 - lleihau effeithiau llifogydd ac erydu arfordirol ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd;
 - codi ymwybyddiaeth pobl o berygl llifogydd ac erydu arfordirol a'u cynnwys yn yr ymateb i'r perygl hwnnw;
 - darparu ymateb effeithiol a pharhaus i ddigwyddiadau yn ymwneud â llifogydd ac erydu arfordirol;
 - blaenoriaethu buddsoddi yn y cymunedau sydd mewn perygl fwyaf.
7. Yn ogystal â nodi'r amcanion cyffredinol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ledled Cymru, eglurodd y Strategaeth Genedlaethol hefyd gyfrifoldebau'r gwahanol sefydliadau yng Nghymru sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Mae'r sefydliadau hyn, y cyfeirir atynt

¹ Strategaeth Genedlaethol – ar gael o:

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epg/waterflooding/flooding/nationalstrategy/5706151/?lang=en>

fel 'awdurdodau rheoli risg', yn ymwneud â'r gwaith o fynd i'r afael â pherygl llifogydd ac erydu arfordirol sy'n wynebu cymunedau yng Nghymru bob dydd.

8. Mae Byrddau Draenio Mewnol yn awdurdodau rheoli risg sydd â chyfrifoldebau penodol o ran rheoli perygl llifogydd.

Diwygio Byrddau Draenio Mewnol

9. Mae mater diwygio Byrddau Draenio Mewnol wedi'i godi sawl gwaith o'r blaen. Yn 2005 comisiynodd Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig JBA Consulting i gynnal adolygiad annibynnol o'r Byrddau Draenio Mewnol yn Lloegr. Gofynnwyd i'r adolygiad wneud argymhellion o ran y trefniadau sefydliadol ar gyfer Byrddau Draenio Mewnol yn Lloegr er mwyn sicrhau eu bod yn effeithlon, yn atebol ac yn gynrychioliadol.
10. Lluniodd JBA Consulting ei adroddiad, sef '*Internal Drainage Board Review*²' yn 2006, gan nodi nifer o argymhellion. Er nad oedd yr adolygiad yn cynnwys Cymru, cymerodd Llywodraeth Cymru sylw o'r argymhellion.
11. Dilynwyd adroddiad JBA gan ymgynghoriad ar y cyd rhwng Cymru a Lloegr ar ddiwygio Byrddau Draenio Mewnol, a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad ehangach ar ddrafft y Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2009. Adeiladodd yr ymgynghoriad hwn ar faterion a nodwyd yn adroddiad JBA gan ganolbwyntio ar ddiwygio trefniadau sefydliadol, trefniadau llywodraethu a threfniadau ariannol.
12. Nid ymdriniwyd â mater diwygio Byrddau Draenio Mewnol yn sylweddol yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ac nid oedd yn cynnwys fawr ddim newidiadau o ran sefydlu consortia.
13. Mae Byrddau Draenio Mewnol yn un o nifer o gyrff sydd wedi'u cynnwys yn y darpariaethau a nodir yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2011, ac mae gan Weinidogion Cymru bwerau i addasu trefniadau neu swyddogaethau cyfansoddiadol y Byrddau Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru, neu drosglwyddo eu swyddogaethau i gyrff penodol eraill.
14. Mae'n bwysig sicrhau bod swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yn cael eu cyflawni'n gyson ym mhob ardal, eu bod yn diwallu anghenion lleol ac yn cyflawni yn erbyn agenda Cymru Fyw Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn bwysig bod Byrddau Draenio Mewnol yn gweithredu yn unol â disgwyliadau ehangach o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn yr 21ain ganrif.

Dull Newydd o Reoli Adnoddau Naturiol

15. Yn 2010 ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar nifer o newidiadau posibl i'r ffordd y caiff adnoddau naturiol Cymru eu rheoleiddio a'u rheoli. Y

² <http://archive.defra.gov.uk/environment/flooding/who/idbreview.htm>

pwysicaf o'r rhain oedd y cynnig y dylai Cymru fabwysiadu dull ecosystem o reoli a rheoleiddio ei hadnoddau naturiol.

16. Byddai dull ecosystem yn golygu gwneud penderfyniadau er budd y gwasanaethau ehangach a ddarperir gan yr amgylchedd yn hytrach nac o ran ffactorau ysgogi unigol. Mae'r dull hwn o weithredu yn cynnig cyfleoedd a heriau sylweddol o ran y ffordd rydym yn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ac mae'n bwysig bod pob awdurdod rheoli risg wedi'i rymuso i weithredu yn unol â'r dull newydd hwn o weithredu.
17. Nodir rhagor o wybodaeth am y dull ecosystem a gymeradwyir ym Mhapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru, *Cynnal Cymru Fyw*³. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgynghori ar gynigion i greu corff newydd sy'n dwyn ynghyd swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Nodir y cynigion hyn yn *Adnoddau Naturiol Cymru*⁴.

Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn Effeithiol

18. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau y gall unigolion gael gafael ar wasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon ble bynnag y bônt yng Nghymru. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ceisio cyflawni'r ymrwymiad hwn drwy wneud y canlynol:
- atgyfnerthu democratiaeth leol
 - cefnogi gwelliant parhaus yn ein gwasanaethau cyhoeddus;
 - sicrhau bod ein cyllid yn helpu i ddarparu gwasanaethau cryfach a mwy effeithiol
 - annog cydweithredu effeithiol rhwng gwasanaethau cyhoeddus
19. Yr egwyddorion sy'n sail i ymagwedd y Llywodraeth tuag at ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yw symleiddio, cydweithredu ac atebolrwydd. Mae cydweithredu yn galluogi cyrff yn y sector cyhoeddus i gydweithio i ddarparu gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon - gan weithio'n genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae hyn yn sicrhau y gellir darparu gwasanaethau arbenigol mewn ffyrdd sy'n gosteffeithiol ac yn gydnerth.
20. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i symleiddio strwythurau ein partneriaethau statudol a dileu'r angen am gymaint o wahanol gynlluniau, asesiadau o anghenion a phwyllgorau. Mae cynlluniau integredig sengl yn cwtogi gryn dipyn ar fiwrocratiaeth sy'n golygu ei bod yn haws i bartneriaid ganolbwyntio ar ganlyniadau nid prosesau a sicrhau eu bod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl a chymunedau lleol.

³ Cynnal Cymru Fyw – Papur Gwyrdd ar gael o:
<http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/sustainingwales/?lang=cy>

⁴ Adnoddau Naturiol Cymru – ar gael o:
<http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/singlebody/?lang=en>

21. Mae'n rhaid i weithgarwch diwygio fynd law yn llaw ag atebolrwydd. Mae atebolrwydd yn un o egwyddorion allweddol llywodraethu da sydd wrth wraidd gwasanaeth cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o arddel egwyddorion llywodraethu da a'i gefnogi ym mhob un o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae llywodraethu da ym mhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yn golygu cymhwysu saith egwyddor bywyd cyhoeddus, sef: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth, er mwyn ateb diben y sefydliad a'r cyhoedd.

Diben yr Ymgynghoriad hwn

22. Bwriedir i'r ymgynghoriad hwn ystyried opsiynau ar gyfer cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yng nghyd-destun agenda Cymru Fyw Llywodraeth Cymru a'r broses ehangach o ddiwygio'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus.

23. I'r perwyl hwnnw rydym yn ceisio barn ar dri opsiwn ar gyfer cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru yn y dyfodol, sef:

- Opsiwn 1 – Cyflawni drwy Fyrddau Draenio Mewnol yn unol â'r trefniadau presennol
- Opsiwn 2 – Cyflawni drwy Fyrddau Draenio Mewnol, gyda newidiadau i drefniadau sefydliadol
- Opsiwn 3 - Cyflawni drwy unrhyw gorff unigol newydd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru

24. Byddem yn croesawu eich barn ar y cynigion hyn ac unrhyw opsiynau eraill a allai gael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru, yn eich barn chi, wrth benderfynu ar gyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru.

Cyflwyniad

25. Mae Byrddau Draenio Mewnol yn gyrrff statudol annibynnol sy'n gyfrifol am systemau draenio tir mewn ardaloedd yng Nghymru a Lloegr lle y ceir anghenion draenio arbennig, y cyfeirir atynt weithiau fel ardaloedd draenio mewnol.
26. Cyrff cyhoeddus sefydledig ydynt sy'n gweithredu yn bennaf o dan Ddeddf Draenio Tir 1991⁵ ac mae ganddynt bwerau i wneud gwaith i sicrhau bod eu hardaloedd yn cael eu draenio a bod lefel y dŵr yn cael ei rheoli, gan gynnwys gwneud gwaith amddiffyn rhag llifogydd ar gyrsiau dŵr cyffredin.
27. At hynny, mae gan Fyrddau Draenio Mewnol nifer o ddyletswyddau a swyddogaethau o dan eitemau eraill o ddeddfwriaeth ac mae llawer ohonynt yn deillio o Ddeddfau preifat; Deddfau Seneddol sy'n ymwneud â maes penodol.
28. Ar hyn o bryd mae tri Bwrdd Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Mae un wedi'i leoli yn gyfan gwbl yng Nghymru ac mae dau wedi'u lleoli ar y ffin â Lloegr. Er bod eu swyddogaethau a'u trefniadau sefydliadol wedi'u hadolygu yn y gorffennol nid yw llawer o arferion sefydliadol, arferion llywodraethu ac arferion ariannol Byrddau Draenio Mewnol wedi newid fawr ddim ers pasio Deddf Draenio Tir 1991.
29. Y Ddeddf honno yw'r adolygiad mawr diwethaf o ddeddfwriaeth mewn perthynas â Byrddau Draenio Mewnol. Er gwaethaf y penderfyniad i newid i system rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol a nodwyd yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, dim ond addasiadau llai a wnaed i rolau a chyfrifoldebau Byrddau Draenio Mewnol.

Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru

30. Ym mis Tachwedd 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y *Strategaeth Genedlaethol gyntaf ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru* gan ddarparu fframwaith cenedlaethol ar gyfer rheoli'r risgiau nawr ac yn y dyfodol.
31. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi polisïau ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ledled Cymru. Mae hefyd yn egluro rolau a chyfrifoldebau Awdurdodau Rheoli Risg ledled Cymru.
32. Mae 31 o Awdurdodau Rheoli Risg yn gweithredu yng Nghymru, fel a ganlyn:
- Asiantaeth yr Amgylchedd
 - 22 o Awdurdodau Arweiniol Llifogydd Lleol

⁵ Deddf Draenio Tir 1991 – ar gael o: www.legislation.gov.uk/ukpga/1991/59/contents

- tri Bwrdd Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru⁶
- y pum cwmni sy'n darparu amrywiol wasanaethau dŵr a charthffosiaeth i Gymru a'r gororau⁷

33. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn cydnabod pwysigrwydd y swyddogaethau a gyflawnir gan y Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru a'r ffaith eu bod yn bartneriaid cyflawni allweddol ar gyfer llawer o'r mesurau o weithgarwch rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol llwyddiannus yng Nghymru.

34. Bydd draenio ac amddiffyn bob amser yn rhan o'r ymateb i berygl llifogydd ac erydu arfordirol ac mae Byrddau Draenio Mewnol yn chwarae rôl allweddol yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yn cael eu cyflawni mewn ffordd sy'n gyson â pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru o ran amgylchedd Cymru a'r hyn a ddisgwylir gan sector cyhoeddus yn yr 21ain ganrif.

Cyflawni Swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol

35. Cynhaliwyd adolygiadau o'r modd y cyflawnir swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yn y gorffennol. Daeth *Adolygiad 2006 o Fyrddau Draenio Mewnol*, a edrychodd ar Fyrddau Draenio Mewnol yn Lloegr, i'r casgliad, er bod Byrddau Draenio Mewnol yn darparu model effeithlon ar y cyfan, eu bod yn amrywio o ran y ffordd yr oeddent yn cyflawni polisïau ehangach Llywodraeth Cymru. At hynny, lleisiwyd pryderon nad oedd pob Bwrdd Draenio Mewnol yn cydymffurfio â'r hyn a ddisgwylid gan gorff cyhoeddus statudol o ran llywodraethu ac atebolrwydd.

36. Ar y cyfan mae'r Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru yn rhai bach, yn ddaearyddol ac yn ariannol. Er i'r *Adolygiad o Fyrddau Draenio Mewnol* nodi bod Byrddau Draenio Mewnol yn effeithlon ar y cyfan, mae bob amser arbedion maint a gall fod ffyrdd mwy effeithlon o gyflawni rhai o'u swyddogaethau.

Cynnal Cymru Fyw

37. Oherwydd y galwadau cynyddol gan gymdeithas ar y gwasanaethau a ddarperir gan ein hadnoddau naturiol, un o'r heriau allweddol sy'n ein hwynebu yn yr 21ain ganrif yw dod o hyd i ffyrdd o sicrhau amgylchedd iach, cydnerth a chynhyrchiol sy'n cyflawni ar gyfer cymdeithas yn gyffredinol nawr ac yn y dyfodol, gan gefnogi cyflogaeth a lles.

38. Mae hefyd angen i ni bennu ein blaenoriaethau er mwyn cyflawni canlyniadau strategol ein rhwymedigaethau amgylcheddol Ewropeaidd yn well a mynd i'r afael â'r risgiau a'r cyfleoedd sylfaenol sy'n ein hwynebu yn hytrach na mynd i'r afael â symptomau unigol ar wahân.

⁶ Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn gweinyddu 11o Ardaloedd Draenio Mewnol ychwanegol yng Ngogledd-orllewin Cymru.

⁷ Dŵr Cymru Welsh Water, Severn Trent Water, Scottish and Southern Water, Albion Water, Dŵr Dyffryn Dyfrdwy.

39. Drwy ganolbwyntio ar wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau naturiol dylai ein dull o weithredu sicrhau manteision i gymdeithas a'r economi.
40. Ym mis Ionawr 2012 lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Bapur Gwyrdd *Cynnal Cymru Fyw*. Rydym yn ceisio barn ar newidiadau arfaethedig i'r trefniadau ar gyfer llywodraethu a chyflawni gweithgarwch rheoli a rheoleiddio'r amgylchedd yng Nghymru yn seiliedig ar y dull ecosystem. Bydd hyn yn golygu ystyried a rheoleiddio'r amgylchedd a'i iechyd yn gyffredinol yn hytrach nag ymdrin ag agweddau unigol ar wahân.
41. Er mwyn gwneud hyn bydd angen rheoli ein hamgylchedd fel system integredig lle mae penderfyniadau ynghylch un elfen yn effeithio ar berfformiad a'r manteision y gall yr amgylchedd eu sicrhau i gymdeithas. Mae'n bwysig bod y modd y caiff swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol eu cyflawni yn y dyfodol yn cael ei ystyried yng nghyd-destun yr ymagwedd hon sy'n newid tuag at reoli ein hamgylchedd.
42. Er mwyn cefnogi agenda Cymru Fyw, yn ddiweddar lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad hefyd ar gynigion i sefydlu un corff ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru. Os caiff ei sefydlu, byddai'r corff sengl yn dwyn ynghyd swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth.
43. Er bod y gwaith sydd wedi'i wneud mewn perthynas â'r corff sengl wedi canolbwyntio ar ddwyn ynghyd swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth, mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi cytuno i ystyried ymgorffori swyddogaethau cyrff eraill yn y corff sengl, lle y bo'n briodol, gan gynnwys swyddogaethau a gyflawnir ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru.
44. Nodir manylion y cynnig hwn ar y corff sengl yn yr ymgynghoriad *Adnoddau Naturiol Cymru* a gaeodd yn ddiweddar. Mae'r ymgynghoriad *Adnoddau Naturiol Cymru* yn nodi'n glir bod Gweinidogion Cymru yn ystyried rhoi nifer o swyddogaethau eraill i'r corff sengl, gan gynnwys y rhai a gyflawnir gan Fyrddau Draenio Mewnol.

Diben yr Ymgynghoriad

45. Mae'r ymgynghoriad hwn yn adeiladu ar y sylwadau ynghylch Byrddau Draenio Mewnol a geir yn *Adnoddau Naturiol Cymru* ac yn ystyried opsiynau ar gyfer cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru yn y dyfodol.
46. Diffinnir termau technegol neu anghyfarwydd yn Atodiad A a cheir manylion am ble i gael gafael ar wybodaeth ychwanegol, gan gynnwys manylion cyswllt y Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru, yn Atodiad B.

Adran 1 – Byrddau Draenio Mewnol y mae'r Cyfan neu Ran Helaeth ohonynt yng Nghymru

47. Mae'n ofynnol i Fwrdd Draenio Mewnol oruchwylio'n gyffredinol yr holl faterion sy'n ymwneud â rheoli lefelau dŵr ar gyfer y tir yn ei Ardal Draenio Dŵr. Prif ffynhonnell pwerau deddfwriaethol Byrddau Draenio Mewnol yw Deddf Draenio Tir 1991, er bod Byrddau Draenio Mewnol 1991 a'u swyddogaethau yn rhagflaenu'r ddeddfwriaeth hon.

Swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol

48. Ychydig o ddyletswyddau statudol a nodir yn Neddf Draenio Tir 1991 ac maent yn cynnwys gofynion i gyflawni'r canlynol:

- gwneud gwaith goruchwylio cyffredinol o ran pob agwedd ar weithgarwch draenio tir yn yr ardal;
- cyflawni dyletswyddau cyffredinol o ran yr amgylchedd a hamdden o ran yr amgylchedd naturiol ac adeiledig a mynediad cyhoeddus;
- pennu cyfanswm gwerth blynyddol yr holl eiddo trethadwy yn yr ardal.

49. Mae'r pwerau disgrisiwn sydd gan Fyrddau Draenio Mewnol o dan Ddeddf Draenio Tir 1991 yn llawer ehangach ac maent yn cynnwys pwerau caniatol sy'n caniatáu i Fyrddau Draenio Mewnol wneud y canlynol:

- gwneud gwaith i liniaru llifogydd;
- gwella a chynnal a chadw'r system ddraenio;
- rheoli gweithgareddau yn y system ddraenio ac wrth ei hochr er mwyn sicrhau nad amherir ar safonau rheoli risg a draenio tir;
- creu is-ddeddfau;
- codi incwm tuag at gostau cynlluniau rheoli llifogydd a lefel dŵr a gwaith draenio tir arall.

50. Mae dyletswyddau a phwerau Bwrdd Draenio Mewnol yn ymestyn i gynnwys unrhyw gwrs dŵr o fewn ei ffin ac eithrio prif afon. Mae Byrddau Draenio Mewnol yn cadw cofnodion o'u ffiniau a'r cyrsiau dŵr y maent yn gyfrifol amdanynt a all gynnwys nentydd ac afonydd bach, ffosydd caeau neu ffosydd draenio a strwythurau tebyg eraill y bwriedir iddynt gymryd dŵr ffo.

51. Goruchwylir swyddogaethau Bwrdd Draenio Mewnol gan fwrdd sy'n cynnwys cynrychiolwyr y perchenogion tir lleol a chynrychiolwyr yr Awdurdodau Lleol perthnasol. Mae'r lefel hon o gynrychiolaeth yn adlewyrchu prif arianwyr swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol, er bod trefniadau llywodraethu penodol yn amrywio rhwng Byrddau Draenio Mewnol ac fe'u nodir yn eu Rheolau Sefydlog.

52. Etholir cynrychiolwyr y perchenogion tir lleol o blith y boblogaeth leol, yn ddarostyngedig i feini prawf cymhwysedd penodol, ac enwebir cynrychiolwyr yr Awdurdodau Lleol perthnasol o blith y Cynghorwyr

etholedig neu swyddogion. Mae maint a threfniadau cyfarfod y byrddau yn amrywio.

53. Mae Deddf Draenio Tir 1991 yn cyfeirio at rai Byrddau Draenio Mewnol fel cyrff sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru neu Loegr. Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am y rhai sy'n gyfan gwbl yng Nghymru, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig sy'n gyfrifol am y rhai sy'n gyfan gwbl yn Lloegr a Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig sy'n gyfrifol ar y cyd am y rhai sy'n rhannol yng Nghymru a Lloegr⁸.
54. Yn fwy diweddar, mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn cyfeirio at Fyrddau Draenio Mewnol fel cyrff y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru neu Loegr, gyda Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am Fyrddau Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru. Mae'r derminoleg hon wedi'i hailadrodd yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori â Llywodraeth y DU ar gynigion sy'n ymwneud â Byrddau Draenio Mewnol ar gyfer ardal nad yw'n gyfan gwbl yng Nghymru ac felly'n rhannol yn Lloegr.

Byrddau Draenio Mewnol y mae'r Cyfan neu Ran Helaeth Ohonynt yng Nghymru

55. Ar hyn o bryd mae tri Bwrdd Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, sef:
- Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-Coed a Gwastadeddau Gwynllŵg (yn gyfan gwbl yng Nghymru);
 - Bwrdd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy (yn bennaf yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr);
 - Bwrdd Draenio Mewnol Powysland (yn bennaf yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr).

Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-Coed a Gwastadeddau Gwynllŵg

56. Mae'r ardal a gwmpesir gan y Bwrdd Draenio Mewnol tua 19 milltir o hyd ac, ar gyfartaledd, mae tua dwy filltir o led. Mae'n cynnwys cyfanswm o 26,000 erw (10,500 hectar) ac fe'i lleolir mewn dalgyloch sy'n cynnwys 64,100 erw (25,940 hectar) Fe'i rhennir yn ddwy ardal, sef:
- Gwastadedd Cil-y-Coed i'r dwyrain o Gasnewydd sy'n cynnwys 17,500 erw (7,100 hectar);

⁸ Rhoddwyd swyddogaethau o dan Ddeddf Draenio Tir 1991 i'r "Gweinidog perthnasol", term a oedd cwmpasu'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o ran ardaloedd nad yw'r cyfan na rhan ohonynt yng Nghymru; y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'r Ysgrifennydd Gwladol o ran ardaloedd y mae rhan ohonynt yng Nghymru; a'r Ysgrifennydd Gwladol o ran ardaloedd y mae'r cyfan ohonynt yng Nghymru. Dim ond swyddogaethau'r "Ysgrifennydd Gwladol" a drosglwyddwyd o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Trosglwyddodd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru.

- Gwastadedd Gwynllŵg i'r gorllewin o Gasnewydd sy'n cynnwys 8,500 erw (3,400 hectar).

57. Mae gweithgarwch Draenio Tir yn yr ardal rhwng Gwastadedd Cil-y-Coed a Gwastadedd Gwynllŵg o dan awdurdodaeth Cyngor Dinas Casnewydd.

58. Mae ardal gyfan Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-Coed a Gwastadeddau Gwynllŵg islaw lefel y penllanw (cymaint â phedwar metr mewn rhai manau). Amddiffynnir yr ardal rhag llifogydd mynych gan amddiffynfeydd môr a adeiladwyd ar hyd aber Afon Hafren rhwng Caerdydd a Chas-gwent. Ar hyn o bryd Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n rheoli ac yn cynnal yr amddiffynfeydd môr hyn.

59. Mae Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-Coed a Gwynllŵg yn darparu gwasanaethau gweinyddu a draenio ar gyfer nifer o Fyrddau Draenio Mewnol eraill yng Nghymru a Lloegr.

Bwrdd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy

60. Mae'r ardal a gwmpesir gan waith y Bwrdd Draenio Mewnol yn cynnwys darnau o ucheldir cydgysylltiedig sy'n ymestyn mewn llinell ar draws dalgylchoedd Mynwy ac ardaloedd cyfagos yn bennaf hyd at Bontrilas yn y de ac i'r dwyrain tuag at Henffordd.

61. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am tua 3,523 hectar ac mae'n cynnal ac yn cadw cyrsiau dŵr a fabwysiadwyd â chyfanswm hyd o 32.9km. Mae system ddraenio'r Bwrdd yn cynnwys tair rhan wahanol, sef: system afon Troddi, system afon Mynwy a'r gwahanol systemau nentydd i'r de-orllewin o Henffordd.

62. Cwblheir llawer o waith y Bwrdd Draenio Mewnol ar ei ran gan Fwrdd Draenio Mewnol Cil-y-Coed a Gwastadeddau Gwynllŵg y mae ganddo drefniant gweinyddol ag ef.

Bwrdd Draenio Mewnol Powysland

63. Mae'r ardal a gwmpesir gan y Bwrdd Draenio Mewnol yn cynnwys 16,101 erw (6,516 hectar) ac mae'n cynnwys 156 km o gyrsiau dŵr. Mae'n cynnwys dyffryn Afon Hafren o Garthmyl i Afon Efyrynwy yng Nghymuned Llandysilio, Nant Cegidfa, Nant Sarnau ac Afon Camlad a Nant Aylesford y mae rhannau ohoni yn Swydd Amwythig.

64. Mae'r Bwrdd Draenio Mewnol yn gweinyddu ei hun gan roi gwaith ar gontract i ddarparwyr gwasanaethau draenio yn ôl yr angen.

Ardaloedd Draenio Mewnol a weinyddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd

65. Yn ogystal â'r tair Ardal Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru a weinyddir gan Fyrddau Draenio Mewnol, ceir 11 o Ardaloedd Draenio Mewnol eraill yng Ngogledd Cymru a weinyddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.
66. Yr 11 o Ardaloedd Draenio Mewnol a weinyddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd yw:
- Ardal Draenio Mewnol Afon Ganol
 - Ardal Draenio Mewnol Cors Arduwy
 - Ardal Draenio Mewnol y Borth
 - Ardal Draenio Mewnol Dyffryn Dysynni
 - Ardal Draenio Mewnol Glaslyn a Penysflog
 - Ardal Draenio Mewnol Harlech a Maentwrog
 - Ardal Draenio Mewnol Llanfrothen
 - Ardal Draenio Mewnol Cors Ddyga
 - Ardal Draenio Mewnol Mawddach ac Wnion
 - Ardal Draenio Mewnol Afon Conwy
 - Ardal Draenio Mewnol Tywyn

Ariannu Byrddau Draenio Mewnol

67. Fel y nodwyd uchod, mae Deddf Draenio Tir 1991 yn cynnwys pwerau disgresiwn neu bwerau caniataol penodol sy'n galluogi Byrddau Draenio Mewnol i godi'r arian sydd ei angen i gyflawni eu swyddogaethau ehangach. Gall arian ddod o sawl ffynhonnell ond telir y rhan fwyaf ohono yn lleol gan y rhai sy'n fwyaf tebygol o gael budd o'r gwaith a wnaed, sef yn y bôn yr holl bobl hynny sy'n byw yn yr Ardal Draenio Mewnol a wasanaethir gan y Bwrdd Draenio Mewnol.
68. Ar hyn o bryd ariennir Byrddau Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru gan ddefnyddio dau brif ddull:
- ardrethi draenio amaethyddol;
 - ardoll arbennig ar Awdurdodau Lleol.
69. At ddibenion cyllid Byrddau Draenio Mewnol, mae pob eiddo yn yr Ardal Draenio Mewnol yn gorfod talu ardreth ddraenio ac ardoll arbennig. Er mwyn cyfrifo a chasglu'r ardreth honno, rhennir eiddo yn eiddo yr ystyrir ei fod yn cynnwys tir ac adeiladau amaethyddol ac eiddo sy'n cynnwys tir ac adeiladau 'eraill'. Codir ardrethi draenio amaethyddol ar feddianwyr yr eiddo hwnnw yr ystyrir ei fod yn cynnwys tir ac adeiladau amaethyddol y maent yn eu talu'n uniongyrchol i'r Bwrdd Draenio Mewnol. Yn achos y tir a'r adeiladau 'eraill', codir tâl yn lle hynny ar yr awdurdod lleol perthnasol, y cyfeirir ato fel yr ardoll arbennig.

70. Yn seiliedig ar ardrethi draenio amaethyddol ac ardollau arbennig yn unig, nodir yr incwm ar gyfer y tri Bwrdd Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru yn ystod y tair blynedd ddiwethaf yn Nhabl 1 isod. Dengys hyn, yn gyffredinol, y codir y rhan fwyaf o'r arian ar gyfer Byrddau Draenio Mewnol mewn ardoll a delir gan awdurdodau lleol.

Blwyddyn	Bwrdd Draenio Mewnol	Cyfraddau (£)	Ardollau (£)	Cyfanswm (£)
2009-10	Cil-y-Coed a Gwastadeddau Gwynllŵg	34,147	1,149,401	1,183,548
	Rhannau Isaf Afon Gwy	4,627	26,113	30,740
	Powysland	39,453	31,858	71,311
2010-11	Cil-y-Coed a Gwastadeddau Gwynllŵg	35,320	1,189,036	1,224,356
	Rhannau Isaf Afon Gwy	4,752	26,818	31,570
	Powysland	46,029	37,168	83,197
2011-12	Cil-y-Coed a Gwastadeddau Gwynllŵg	35,320	1,189,036	1,224,356
	Rhannau Isaf Afon Gwy	4,752	26,818	31,570
	Powysland	48,221	38,938	87,159

Tabl 1 – Ariannu Byrddau Draenio Mewnol

71. Er mai'r ardrethi draenio amaethyddol a'r ardoll arbennig yw'r prif ffynonellau arian ar gyfer y tri Bwrdd Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru nid hwy yw'r unig ffynonellau arian. Gall Byrddau Draenio Mewnol godi tâl am wneud gwaith preifat, naill ai i unigolion neu ar sail gytundebol, ac maent yn gwneud hynny'n aml. Mae Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-Coed a Gwastadeddau Gwynllŵg, er enghraifft, yn gwneud gwaith ar ran Byrddau Draenio Mewnol eraill gan godi tâl am y gwaith hwnnw.

72. At hynny gall Byrddau Draenio Mewnol ofyn am arian dewisol ychwanegol gan Asiantaeth yr Amgylchedd o dan Ddeddf Draenio Tir 1991 lle mae eu Hardal Draenio Mewnol yn cael dŵr o dir ar lefel uwch. Cyfeirir at hyn yn aml fel cyfraniad 'dŵr ucheldir' a gellir gwneud ceisiadau lle mae'r Bwrdd Draenio Mewnol yn mynd i gostau wrth ymdrin â'r dŵr hwnnw. Mae Bwrdd Draenio Mewnol Powysland wedi cael arian am y gwasanaeth hwn mewn perthynas â'i Ardal Draenio Mewnol.

73. Ar y llaw arall, o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991⁹ rhaid i Asiantaeth yr Amgylchedd gyflwyno praesept i Fwrdd Draenio Mewnol adennill cyfraniad yr ystyria Asiantaeth yr Amgylchedd ei fod yn deg tuag at ei gostau. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gwneud hynny mewn perthynas â'r Byrddau Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru, sy'n aml yn arwain at y broses ddiangen, yn ôl pob golwg, lle mae Bwrdd Draenio Mewnol yn gofyn am swm gan Asiantaeth yr Amgylchedd dim ond i Asiantaeth yr Amgylchedd godi swm arno yntau hefyd.

Trefniadau Archwilio

74. O'r tri Bwrdd Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru, dim ond Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-Coed a Gwastadeddau Gwynllŵg sy'n gyfan gwbl yng Nghymru ac felly'n cael ei archwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Bwrdd Draenio Mewnol Rhannau Isaf Afon Gwy a Bwrdd Draenio Mewnol Powysland yn gyrrff trawsffiniol ac fe'u harchwilir gan y Comisiwn Archwilio.

75. O dan y rheolau newydd a weithredir gan y Comisiwn Archwilio, bydd pob corff bach bellach yn destun yr adolygiad sicrwydd cyfyngedig. Yn ddiweddar, gwnaed newidiadau i'r trothwy, ac ystyrir bod corff cyhoeddus sydd o dan y trothwy hwn yn gorff bach, gan ei godi o £1 filiwn i £6.5 miliwn.

76. Ar 13 Awst 2010, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol gynlluniau i chwalu'r Comisiwn Archwilio, trosglwyddo gwaith ymarfer mewnol y Comisiwn Archwilio i'r sector preifat a rhoi fframwaith archwilio newydd ar waith. Byddai awdurdodau lleol yn rhydd i benodi eu harchwilwyr allanol annibynnol eu hunain. Byddai cyfundrefn archwilio newydd wedi ei datganoli yn cael ei sefydlu a byddai cynghorau a chyrrff iechyd lleol yn dal i fod yn destun archwiliadau cadarn.

77. Bydd pob corff bach, gan gynnwys y ddau Fwrdd Draenio Mewnol y mae'r cyfan ohonynt neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru, a archwilir ar hyn o bryd gan y Comisiwn Archwilio, yn gorfod dilyn y trefniadau a roddwyd ar waith yn dilyn chwalu'r Comisiwn Archwilio.

78. Er nad yw'r gwahaniaethau mewn trefniadau archwilio ar gyfer y tri Bwrdd Draenio Mewnol y mae'r cyfan ohonynt neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru yn newydd, gallent beri risg y gallai gwahaniaethau mewn trefniadau craffu a llywodraethu ddatblygu yn y dyfodol ac felly bydd angen monitro hyn yn unol â hynny.

79. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod pob Bwrdd Draenio Mewnol y mae'r cyfan ohono neu ran helaeth ohono yng Nghymru yn cael ei archwilio ar yr un sail ac o dan yr un rheolau â chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru ac mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn ei ystyried ymhellach yn y dyfodol.

⁹ Deddf Adnoddau Dŵr 1991 – ar gael o: : www.legislation.gov.uk/ukpga/1991/57/contents

Adran 2 – Opsiynau ar gyfer y Dyfodol

80. Mae nifer o opsiynau ar gyfer cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru yn y dyfodol. Mae manteision ac anfanteision i bob un o'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ac mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i glywed eich barn ar y rhain, ac ar unrhyw opsiynau eraill.

Yr Opsiynau

81. Y tri opsiwn sy'n cael eu hystyried yw:

- Opsiwn 1 – Cyflawni drwy Fyrddau Draenio Mewnol yn unol â'r trefniadau presennol
- Opsiwn 2 – Cyflawni drwy Fyrddau Draenio Mewnol, gyda newidiadau i drefniadau sefydliadol
- Opsiwn 3 - Cyflawni drwy unrhyw gorff unigol newydd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru

Meini Prawf Asesu

82. Wrth asesu pob un o'r opsiynau arfaethedig ar gyfer cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol bydd Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn erbyn cyfres o feini prawf craidd, sef:

- Bodloni gofynion system rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol Cymru, fel y'u nodir yn y Strategaeth Genedlaethol.
- Cyflawni agenda Cymru Fyw a mabwysiadu dull ecosystem ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru.
- Gweithredu yn unol â'r disgwyliadau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn yr 21ain ganrif.
- Cyfleoedd i gynnal a meithrin arbenigedd ym maes rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol gan gynnwys gofynion lleol.
- Y gallu i fynd i'r afael â gofynion trawsffiniol, gan gynnwys risgiau a gweithgareddau rheoli.
- Darparu gwasanaeth rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol costeffeithiol ac effeithlon.

83. Defnyddiwyd tair lefel ar gyfer pob opsiwn i ddangos effeithiolrwydd wrth gyflawni'r meini prawf craidd. Nodir y tair lefel isod:

- a. Isel – aneffeithiol
- b. Canolig: effeithiol i ryw raddau ond gyda chyfyngiadau
- c. Uchel: effeithiol

Opsiwn 1 – Cyflawni drwy Fyrddau Draenio Mewnol yn unol â'r trefniadau presennol

84. Un opsiwn ar gyfer cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru yn y dyfodol yw cadw'r trefniadau presennol. Drwy gymryd yr opsiwn hwn byddai'r tri Bwrdd Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru ar hyn o bryd yn parhau i gyflawni eu swyddogaethau o dan Ddeddf Draenio Tir 1991, a hynny'n unol â'r trefniadau presennol.
85. I bob diben byddai'r opsiwn hwn yn golygu parhau â'r sefyllfa bresennol. Ni wneid unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth lywodraethu o ran swyddogaethau'r Byrddau Draenio Mewnol na'u trefniadau gweithredol.

Asesu yn erbyn meini prawf

Meini prawf	Asesu
Bodloni gofynion system rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol Cymru, fel y'u nodir yn y Strategaeth Genedlaethol.	Canolig Mae Byrddau Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru wedi'u dynodi'n Awdurdodau Rheoli Risg yng Nghymru ac felly mae ganddynt ddyletswydd statudol i weithredu'n unol â'r Strategaeth Genedlaethol. Fodd bynnag, mae Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru yn rhai bach a all gyfyngu ar rai o'u camau gweithredu.
Cyflawni agenda Cymru Fyw a mabwysiadu dull ecosystem ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru.	Isel i Ganolig Mae Byrddau Draenio Mewnol yn cyflawni amrywiaeth o swyddogaethau gan gynnwys gweithgarwch draenio a rheoli lefel dŵr at ddibenion amgylcheddol. Fodd bynnag, yn aml nid yw ffiniau yn cyd-fynd â dalgylchoedd dŵr ehangach a gallant gyfyngu ar weithgareddau. Gallai cyfyngiadau o ran maint Byrddau Draenio Mewnol a'u harwynebedd ardrethol a achosir gan y trefniadau presennol ar gyfer pennu ffiniau hefyd gyfyngu ar eu hopsiynau o ran mabwysiadu dull ecosystem

	llawn, e.e, lle mae ffiniau'n torri ar draws cynefinoedd.
Gweithredu yn unol â'r disgwyliadau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn yr 21ain ganrif.	<p>Isel</p> <p>Nid ymdriniwyd yn llawn â phryderon ynghylch y trefniadau llywodraethu a'r trefniadau sefydliadol ehangach a godwyd mewn adolygiadau blaenorol. Er bod rhai Byrddau Draenio Mewnol wedi gwneud gwelliannau sylweddol o'u gwirfodd, nid yw rhai eraill wedi gwneud unrhyw newidiadau o gwbl.</p> <p>Mae'n amlwg nad yw'r trefniadau statudol presennol a grëwyd gan lythyr Medway a Deddf Draenio Tir 1991, yn galluogi'r sector cyhoeddus yng Nghymru i symleiddio a sicrhau tryloywder ac atebolrwydd prosesau darparu gwasanaethau fel mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddo ei wneud.</p>
Cyfleoedd i gynnal a meithrin arbenigedd ym maes rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol gan gynnwys gofynion lleol.	<p>Canolig i Uchel</p> <p>Mae Byrddau Draenio Mewnol wedi meithrin cryn arbenigedd o ran rheoli'r risgiau yn eu hardaloedd. Mae maint a natur yr ardaloedd hynny, a'r ffaith bod perchenogion tir lleol wedi'u cynnwys ar eu byrddau, yn golygu bod dealltwriaeth dda o ofynion lleol.</p> <p>Fodd bynnag, er y bydd eithriadau, wrth ystyried ardaloedd y tu hwnt i ffiniau'r ardaloedd, mae'n bosibl nad yw'r wybodaeth leol yn ymestyn y tu hwnt i'r ffiniau.</p>
Y gallu i fynd i'r afael â gofynion trawsffiniol, gan gynnwys risgiau a gweithgareddau rheoli.	<p>Isel i Ganolig</p> <p>Lleolir dau o'r Byrddau Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr ac, o ran eu natur, maent yn drawsffiniol. Fodd bynnag, yn y ddau achos mae arwynebedd y tir yn Lloegr yn gymharol fach o</p>

	<p>gymharu ag arwynebedd y tir yng Nghymru.</p> <p>Er bod gan Fyrddau Draenio Mewnol trawsffiniol ddealltwriaeth dda o'r materion yn eu hardal, nid yw eu ffiniau bob amser yn cyd-fynd â'r dalgylchoedd ehangach ac nid yw'n arfer safonol i Fyrddau Draenio Mewnol feddu ar ddealltwriaeth dda o'r materion hyn y tu hwnt i'w ffiniau, felly byddem yn disgwyl i Fyrddau Draenio Mewnol beidio â meddu ar ddealltwriaeth dda o faterion y tu hwnt i'w hardal.</p>
<p>Darparu gwasanaeth rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol costeffeithiol ac effeithlon.</p>	<p>Canolig</p> <p>Mae'r Byrddau Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru yn rhai cymharol fach. Er i adolygiadau blaenorol ddod i'r casgliad bod Byrddau Draenio Mewnol yn cynnig gwasanaeth costeffeithiol, maent hefyd wedi awgrymu y gellid gwella'r gwasanaeth hwn ymhellach drwy weithredu mewn ardal weinyddol fwy o faint. Mae Byrddau Draenio Mewnol llai o faint wedi'u hannog i uno neu ffurfio consortia lle y bo'n briodol.</p> <p>Mewn rhai achosion gall hefyd fod yn gosteffeithiol i Fyrddau Draenio Mewnol llai o faint, megis y rhai y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru, gydweithio'n fwy ag awdurdodau lleol neu eraill o ran gwasanaethau ystafell gefn, gan gynnwys gwasanaethau cyllid a chaffael.</p>

Opsiwn 2 – Cyflawni drwy Fyrddau Draenio Mewnol, gyda newidiadau i drefniadau sefydliadol

86. Fel Opsiwn 1, byddai Opsiwn 2 yn cadw rhai o'r trefniadau presennol. Drwy gymryd yr opsiwn hwn byddai'r tri Bwrdd Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru ar hyn o bryd yn parhau i gyflawni eu swyddogaethau o dan Ddeddf Draenio Tir 1991, ond gyda newidiadau i'w trefniadau sefydliadol.
87. Ni wneid unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth lywodraethu o ran swyddogaethau'r Byrddau Draenio Mewnol na sefydlu Byrddau Draenio Mewnol. Fodd bynnag, gwneid newidiadau er mwyn:
- addasu aelodaeth Byrddau Draenio Mewnol – Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer cyfran fwy cyfartal o berchnogion tir a chynrychiolwyr awdurdodau lleol ac yn sicrhau cynrychiolaeth sy'n fwy cyson â'i phroffil gwariant;
 - symleiddio'r broses o newid ffiniau a chyfuno Byrddau Draenio Mewnol – Mae cyfuno yn broses sy'n mynd â llawer o amser ac nid yw'n gosteffeithiol ar hyno bryd. Byddai symleiddio'r broses hysbysu ac ychwanegu hyblygrwydd i'r rheini y byddai hyn yn effeithio arnynt yn symleiddio'r broses;
 - dileu'r ardoll arbennig ar gyfer Byrddau Draenio Mewnol a rhoi trefniadau cytundebol rhwng Byrddau Draenio Mewnol a'r Awdurdodau Lleol perthnasol yn ei lle – byddai hyn yn cynnig gwell 'gwerth am arian';
 - adolygu'r taliadau cylchol rhwng Byrddau Draenio Mewnol ac Asiantaeth yr Amgylchedd – Bydd hyn yn pennu effeithiolrwydd y taliadau crwn ac yn cadarnhau a oedd eu hangen o hyd.

Asesu yn Erbyn Meini Prawf

Meini prawf	Asesu
Bodloni gofynion system rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol Cymru, fel y'u nodir yn y Strategaeth Genedlaethol.	<p>Canolig</p> <p>Byddai Opsiwn 2 yn ei gwneud yn ofynnol i wneud rhai newidiadau i'r trefniadau llywodraethu a'r trefniadau sefydliadol ehangach ar gyfer Byrddau Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru. Fodd bynnag, ni fyddai'n newid eu swyddogaethau o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.</p> <p>Mae Byrddau Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru wedi'u dynodi'n Awdurdodau Rheoli Risg yng Nghymru ac felly mae ganddynt</p>

	<p>ddyletswydd statudol i weithredu'n unol â'r Strategaeth Genedlaethol.</p> <p>Byddai'r diwygiadau i'w trefniadau llywodraethu a'u trefniadau gweithredol yn cynnig cyfle i gynyddu maint y ffin, a allai helpu i gyflawni eu swyddogaethau o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol drwy leihau'r dŵr sy'n ofynnol gan Fyrddau Draenio Mewnol i ddelio ag ef sy'n syrthio ar dir y tu allan i'w hardal ac sy'n llifo i lawer o gyrsiau dŵr a reolir gan Fyrddau Draenio Mewnol. Fodd bynnag, nid yw'r opsiwn i gynyddu maint ffin yn ddi-ben-draw a byddai rhai cyfyngiadau o hyd. Er enghraifft, pennir terfynau gan Ddeddf Draenio Tir (1991) a Llythyr Medway.</p>
<p>Cyflawni agenda Cymru Fyw a mabwysiadu dull ecosystem ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru.</p>	<p>Canolig</p> <p>Nid yw Opsiwn 2 yn cynnig unrhyw newidiadau i swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol y Byrddau Draenio Mewnol.</p> <p>Mae Byrddau Draenio Mewnol yn parhau i gyflawni'r swyddogaethau hynny, gan gynnwys gweithgarwch draenio a rheoli lefel dŵr at ddibenion amgylcheddol. Fodd bynnag, gallai'r newidiadau i'w trefniadau llywodraethu a'u trefniadau sefydliadol helpu i fodloni gofynion agenda Cymru Fyw. Gallai cynyddu ffiniau sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn agosach â dalgylchoedd dŵr ehangach.</p> <p>Nid yw'r opsiwn i gynyddu'r ffin yn ddi-ben-draw, felly byddai rhai cyfyngiadau o hyd.</p>
<p>Gweithredu yn unol â'r disgwyliadau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn yr 21ain ganrif.</p>	<p>Canolig</p> <p>Byddai Opsiwn 2 yn newid y trefniadau llywodraethu a'r trefniadau sefydliadol ehangach ar gyfer Byrddau Draenio Mewnol y mae'r</p>

	<p>cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru. Byddai hyn yn gwneud prosesau darparu gwasanaethau yn fwy syml, tryloyw ac atebol, gan ddod â Byrddau Draenio Mewnol yn agosach at y safon y mae Llywodraeth Cymru yn ei disgwyl gan y sector cyhoeddus yng Nghymru.</p> <p>Fodd bynnag, bydd rhai cyfyngiadau o hyd oherwydd maint cymharol fach y Byrddau Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru. Gallai hyn arwain at bryderon parhaus ynghylch costeffeithiolrwydd prosesau darparu gwasanaethau.</p>
<p>Cyfleoedd i gynnal a meithrin arbenigedd ym maes rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol gan gynnwys gofynion lleol.</p>	<p>Canolig i Uchel</p> <p>Mae'r sefyllfa o ran y maen prawf hwn yn union yr un peth ag ar gyfer Opsiwn 1.</p> <p>Mae Byrddau Draenio Mewnol wedi meithrin cryn arbenigedd o ran rheoli'r risgiau yn eu hardaloedd. Mae maint a natur yr ardaloedd hynny, a'r ffaith bod perchenogion tir lleol wedi'u cynnwys ar eu byrddau, yn golygu bod dealltwriaeth dda o ofynion lleol.</p> <p>Fodd bynnag, yn aml nid yw'r wybodaeth leol hon yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau'r ardaloedd. Er y gall y newidiadau arfaethedig i drefniadau llywodraethu a threfniadau sefydliadol ei gwneud yn bosibl i ymestyn ffiniau ardaloedd, bydd angen amser i feithrin gwybodaeth am ardaloedd newydd.</p>
<p>Y gallu i fynd i'r afael â gofynion trawsffiniol, gan gynnwys risgiau a gweithgareddau rheoli.</p>	<p>Isel i Ganolig</p> <p>Mae'r sefyllfa o ran y maen prawf hwn yn union yr un peth ag ar gyfer Opsiwn 1.</p> <p>Lleolir dau o'r Byrddau Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran</p>

	<p>helaeth ohonynt yng Nghymru ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr ac, o ran eu natur, maent yn drawsffiniol. Fodd bynnag, yn y ddau achos mae arwynebedd y tir yn Lloegr yn gymharol fach o gymharu ag arwynebedd y tir yng Nghymru.</p> <p>Er bod gan Fyrddau Draenio Mewnol trawsffiniol ddealltwriaeth dda o'r materion yn eu hardal, nid yw eu ffiniau bob amser yn cyd-fynd â'r dalgylchoedd ehangach ac nid oes bob amser ddealltwriaeth cystal o'r materion y tu hwnt i'r ardal.</p> <p>Efallai y bydd y newidiadau arfaethedig i drefniadau llywodraethu a threfniadau sefydliadol yn ei gwneud yn bosibl i ymestyn ffiniau ardaloedd, bydd angen amser i feithrin gwybodaeth am ardaloedd newydd.</p>
<p>Darparu gwasanaeth rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol costeffeithiol ac effeithlon.</p>	<p>Canolig</p> <p>Mae'r sefyllfa o ran y maen prawf hwn yn union yr un peth ag ar gyfer Opsiwn 1.</p> <p>Mae'r Byrddau Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru yn rhai cymharol fach. Er i adolygiadau blaenorol ddod i'r casgliad bod Byrddau Draenio Mewnol yn cynnig gwasanaeth costeffeithiol, maent hefyd wedi awgrymu y gellid gwella'r gwasanaeth hwn ymhellach drwy weithredu mewn ardal weinyddol fwy o faint.</p> <p>Efallai y bydd y newidiadau arfaethedig i drefniadau llywodraethu a threfniadau sefydliadol yn ei gwneud yn bosibl i ymestyn ffiniau ardaloedd. Fodd bynnag, o gofio lleoliadau'r Byrddau Draenio Mewnol dan sylw, ni fyddai'n ymarferol eu huno. Gellid ystyried trefniant consortia, cyhyd â bod y trefniadau cyfrifyddu a gweinyddu yn eglur.</p>

	Mewn rhai achosion gall hefyd fod yn gosteffeithiol i Fyrddau Draenio Mewnol llai o faint, megis y rhai y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru, gydweithio'n fwy gydag awdurdodau lleol neu eraill o ran gwasanaethau ystafell gefn, gan gynnwys gwasanaethau cyllid a chaffael.
--	---

Opsiwn 3 - Cyflawni drwy unrhyw gorff unigol newydd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru

88. O dan yr Opsiwn hwn, byddai'r cyfrifoldeb am gyflawni swyddogaethau'r Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru yn cael ei drosglwyddo i unrhyw gorff sengl newydd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru. Dyma'r corff arfaethedig newydd y bwriedir ei ffurfio drwy uno Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.
89. Mae gorgyffwrdd rhwng y gwaith a wneir gan Fyrddau Draenio Mewnol ac awdurdodau rheoli risg eraill. Byddai'r gorgyffwrdd yn y gwaith a wneir gan Fyrddau Draenio Mewnol ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a hefyd y synergeddau â gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru yn golygu, i bob diben, y byddai gweithredu'r Opsiwn hwn yn golygu diddymu Byrddau Draenio Mewnol ar wahân, gan drosglwyddo eu holl swyddogaethau a'u cyfrifoldebau i unrhyw gorff sengl ynghyd â'r asedau a ddelir ganddynt.
90. Byddai hwn yn newid sylfaenol yn y ffordd y mae swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yn cael eu cyflawni yng Nghymru.

Asesu yn erbyn meini prawf

Meini prawf	Asesu
Bodloni gofynion system rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol Cymru, fel y'u nodir yn y Strategaeth Genedlaethol.	Uchel Os caiff ei sefydlu, byddai corff sengl yn ymgymryd â swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys eu rôl genedlaethol i oruchwylio'r holl weithgarwch rheoli perygl llifogydd a rheoli risg yng Nghymru a'u swyddogaethau cynghori technegol.

	<p>Mae Byrddau Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru wedi'u dynodi'n Awdurdodau Rheoli Risg yng Nghymru ac felly mae ganddynt ddyletswydd statudol i weithredu'n unol â'r Strategaeth Genedlaethol. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd wedi'i dynodi'n Awdurdod Rheoli Risg yng Nghymru a byddai unrhyw gorff sengl hefyd wedi'i ddynodi felly.</p> <p>At hynny byddai unrhyw gorff sengl yn gweithredu ledled Cymru gyfan a byddai ganddo'r hyblygrwydd i gyflawni'r ystod lawn o swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ym mhob rhan o'r wlad.</p>
<p>Cyflawni agenda Cymru Fyw a mabwysiadu dull ecosystem ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru.</p>	<p>Uchel</p> <p>Os caiff ei sefydlu, byddai'r corff sengl yn dwyn ynghyd swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth. Byddai hyn yn rhoi ystod o bwerau a dyletswyddau statudol i unrhyw gorff sengl weithredu er budd yr amgylchedd ac, yn benodol, weithredu'n unol â'r dull ecosystem ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru.</p> <p>Byddai unrhyw gorff sengl yn gweithredu ledled Cymru gyfan a byddai ganddo'r hyblygrwydd i gyflawni'r ystod lawn o swyddogaethau amgylcheddol ym mhob rhan o'r wlad.</p>
<p>Gweithredu yn unol â'r disgwyliadau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn yr 21ain ganrif.</p>	<p>Canolig i Uchel</p> <p>Byddai unrhyw gorff sengl yn cael ei sefydlu yng nghyd-destun y camau y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru eu cymryd i symleiddio a sicrhau tryloywder ac atebolrwydd prosesau darparu gwasanaethau.</p>

	<p>Câi'r confensiynau a'r safonau mwyaf diweddar ar gyfer arferion gweinyddol, arferion llywodraethu ac arferion ariannol eu defnyddio wrth lunio deddfwriaeth ac mewn rheolau sefydlog. Dros amser byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i unrhyw gorff sengl ddatblygu'n batrwm o sefydliad o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus.</p>
<p>Cyfleoedd i gynnal a meithrin arbenigedd ym maes rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol gan gynnwys gofynion lleol.</p>	<p>Canolig i Uchel</p> <p>Os caiff ei sefydlu, byddai corff sengl yn ymgymryd â swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol Asiantaeth yr Amgylchedd. Yn ogystal â'r gwaith a wneir i oruchwylio'r holl weithgareddau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru a'u swyddogaethau cynghori technegol mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd amrywiaeth o swyddogaethau gweithredol a fyddai hefyd yn cael eu trosglwyddo i unrhyw gorff sengl.</p> <p>Mae Asiantaeth yr Amgylchedd eisoes yn gweinyddu 11 o ardaloedd draenio yng Ngogledd Cymru, gan gyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yn yr ardaloedd hynny. Maent hefyd yn gweithredu yn ardaloedd y tri Bwrdd Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru, gan gyflawni gweithgareddau gweithredol tebyg.</p> <p>Er na fyddai unrhyw gorff sengl yn meddu ar y wybodaeth leol a gaffaelir gan Fyrddau Draenio Mewnol ar unwaith, byddai'n canolbwyntio'n gryf ar yr ardal leol, gan adeiladu ar drefniadau presennol Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth. Byddai hefyd yn elwa o weithlu mwy o faint a mwy o gydnerthedd o ran arbenigedd ym maes draenio, am y</p>

	byddai'n gallu galw ar staff o bob rhan o Gymru yn ôl yr angen.
Y gallu i fynd i'r afael â gofynion trawsffiniol, gan gynnwys risgiau a gweithgareddau rheoli.	<p>Canolig i Uchel</p> <p>Os caiff ei sefydlu, byddai unrhyw gorff sengl yn gweithredu o fewn ffiniau Cymru. Byddai angen gwneud trefniadau ar wahân o ran yr ardaloedd yn Lloegr a gwmpesir gan y ddau Fwrdd Draenio Mewnol a leolir ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, yn y ddau achos mae arwynebedd y tir yn Lloegr yn gymharol fach o gymharu ag arwynebedd y tir yng Nghymru ac efallai y bydd y corff sengl yn ystyried llunio cytundeb lefel gwasanaeth lleol ag awdurdodau yn Lloegr.</p> <p>Byddai gan unrhyw gorff sengl bwerau a dyletswyddau statudol i gydweithio ag awdurdodau yn Lloegr i reoli risgiau trawsffiniol ac, o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, byddai'n parhau i weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd (corff a fyddai'n gweithredu yn Lloegr yn unig). Byddai angen gwneud hyn er mwyn cydymffurfio â threfniadau adrodd Ewropeaidd a domestig.</p> <p>Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth gryn brofiad o waith trawsffiniol a byddai unrhyw gorff sengl yn gallu defnyddio'r arbenigedd hwn. Byddai hefyd yn elwa o weithlu mwy o faint a mwy o gydnerthedd o ran arbenigedd ym maes draenio, am y byddai'n gallu galw ar staff o bob rhan o Gymru yn ôl yr angen.</p>
Darparu gwasanaeth rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol costeffeithiol ac effeithlon.	<p>Uchel</p> <p>Os caiff ei sefydlu, byddai unrhyw gorff sengl yn gweithredu o fewn ffiniau Cymru. Yn ogystal ag elwa o symleiddio amrywiaeth o swyddogaethau ystafell gefn, a allai</p>

	<p>wella'r modd y cyflawnir swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol, byddai ganddo hefyd mwy o bŵer i negodi o ran rhoi contractau ar dendr a chaffael gwasanaethau sy'n darparu ar gyfer gwell arbedion maint.</p> <p>Byddai unrhyw gorff sengl hefyd yn gallu galw ar gronfa ehangach o bersonél, deunyddiau ac asedau i gyflawni eu swyddogaethau.</p>
--	--

Trefniadau Ariannu

91. Bydd hefyd angen ystyried cyllid Byrddau Draenio Mewnol o ran pob un o'r Opsiynau. Ar hyn o bryd daw'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol o ardrethi draenio a godir yn uniongyrchol ar berchenogion tir lleol a'r ardoll arbennig a delir gan awdurdodau lleol perthnasol. O dan bob un o'r Opsiynau uchod rhagwelir y cedwir rhyw fath o ardoll, gan ddiogelu'r egwyddor o dalu am wasanaethau. Fodd bynnag, bydd y ffordd y caiff ei chodi yn amrywio.
92. O dan Opsiwn 1, nad yw'n cynnig unrhyw newid i'r ffordd y cyflawnir swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol, ni fyddai unrhyw newid i'r trefniadau presennol ar gyfer codi arian. Byddai'r ystod o ardollau a ddefnyddir ar hyn o bryd yn parhau i gael ei defnyddio a chât'r lefelau eu pennu gan Fwrdd y Bwrdd Draenio Mewnol dan sylw.
93. O dan Opsiwn 2, sy'n cynnig rhai newidiadau i'r trefniadau sefydliadol ar gyfer Byrddau Draenio Mewnol megis symleiddio'r broses o newid ffiniau ac uno ac addasu aelodaeth Byrddau Draenio Mewnol, byddai rhai newidiadau i'r trefniadau ar gyfer codi arian. Bwriedir i'r newidiadau hyn symleiddio'r trefniadau presennol a gwella tryloywder ac atebolrwydd. Fodd bynnag, fel gydag Opsiwn 1 byddai'r lefelau a godir o dan yr ardreth ddraenio ac unrhyw gytundeb contractiol yn parhau i gael eu pennu gan Fwrdd y Bwrdd Draenio Mewnol dan sylw.
94. O dan Opsiwn 3, sy'n cynnig y dylid trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Draenio Mewnol i unrhyw gorff unigol newydd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru, byddai rhai newidiadau i'r trefniadau codi arian er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder. Fodd bynnag, am na fyddai unrhyw Ardal Draenio Mewnol fel y cyfryw, câi'r ardoll ei phennu gan y corff sengl. Ar hyn o bryd rydym yn rhagweld y câi hynny ei wneud gan Bwyllgor Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd Cymru, y disgwylir iddo drosglwyddo o Asiantaeth yr Amgylchedd i unrhyw gorff sengl.
95. Mae Rheoli Perygl Llifogydd Cymru yn cynnwys cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol a sawl aelod annibynnol o'r sector llifogydd ac arfordir.

Efallai y bydd angen newid yr aelodaeth ymhellach er mwyn hwyluso cynrychiolaeth gan berchenogion tir.

Yr Opsiwn a Ffefrir

96. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mabwysiadu Opsiwn 3 ar gyfer cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yn y dyfodol. O ganlyniad byddai'r cyfrifoldeb ar gyfer cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yn cael eu trosglwyddo i unrhyw gorff sengl a gâi ei sefydlu o ganlyniad i'r ymgynghoriad *Adnoddau Naturiol Cymru*.

97. Gwahoddir sylwadau ar y cynnig hwn gan yr holl ymatebwyr i'r ymgynghoriad.

Ardaloedd Draenio Mewnol a weinyddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd

98. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystyried ar wahân hyfywedd nifer o'r Ardaloedd Draenio Mewnol a weinyddir ganddi. Yn amodol ar ganlyniad yr adolygiad hwnnw y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei gyhoeddi ar ei gwefan¹⁰ maes o law, mae'n bosibl y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cysylltu â Llywodraeth Cymru i geisio dileu'r dynodiad Ardal Draenio Mewnol sydd gan rai ardaloedd. Gall dileu'r dynodiad Ardal Draenio Mewnol hefyd fod yn gymwys i Fyrddau Draenio Mewnol lle y bo'n briodol. Gellir cymryd y penderfyniad i ddileu dynodiad Bwrdd Draenio Mewnol neu Ardal Draenio Mewnol o rai ardaloedd os yw'n wir nad yw rhai ohonynt mwyach yn ddichonadwy.

99. O ran yr opsiynau a ystyriwyd uchod, rhagwelir y byddai'r canlynol yn digwydd o ran unrhyw Ardaloedd Draenio Mewnol sy'n weddill a weinyddir gan Asiantaeth yr Amgylcheddol:

- Opsiwn 1 - byddai'r Ardaloedd Draenio Mewnol sy'n weddill yn parhau i gael eu gweinyddu gan Asiantaeth yr Amgylchedd, neu unrhyw gorff sengl, yn unol â'r trefniadau presennol.
- Opsiwn 2 - byddai'r Ardaloedd Draenio Mewnol sy'n weddill yn parhau i gael eu gweinyddu gan Asiantaeth yr Amgylchedd, neu unrhyw gorff sengl, yn unol â'r trefniadau llywodraethu a'r trefniadau sefydliadol diwygiedig.
- Opsiwn 3 - câi'r Ardaloedd Draenio Mewnol sy'n weddill eu gweinyddu gan unrhyw gorff unigol.

100. Os caiff Opsiynau 1 neu 2 eu mabwysiadu, mae hefyd yn bosibl y bydd unigolion yn cyflwyno cynigion i sefydlu Byrddau Draenio Mewnol dynodedig ar gyfer yr ardaloedd hyn ac yn cynnig ymgymryd â'r rôl honno yn lle Asiantaeth yr Amgylchedd, neu unrhyw gorff sengl.

¹⁰ www.environment-agency.gov.uk/

101. Pe bai Opsiwn 3 yn cael ei fabwysiadu byddai Byrddau Draenio Mewnol fel cyrff cyhoeddus ar wahân yn dod i ben.

Cwestiynau

P'un o'r tri Opsiwn ar gyfer cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru yn y dyfodol rydych yn ei gefnogi a pham?

Yn eich barn chi, a oes unrhyw faterion perthnasol eraill ar gyfer cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru yn y dyfodol y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried?

A oes gennych ragor o wybodaeth neu dystiolaeth rydych yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ei hystyried wrth ddod i'w phenderfyniad terfynol ynghylch cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru yn y dyfodol?

A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw Llywodraeth Cymru atynt o ran cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru?

Adran 3 – Amseru a Chamau Nesaf

102. Hoffai Llywodraeth Cymru glywed eich barn ar y materion a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn. Cymerwch amser i ystyried yr opsiynau a nodwyd ar gyfer cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru yn y dyfodol a rhannu eich barn â ni.

Ymateb i'r Ymgynghoriad

103. Gellir anfon ymatebion i'r cyfeiriad canlynol:

Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol
Yr Is-adran Lleoedd Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu i:

floodcoastalrisk@wales.gsi.gov.uk.

104. Os byddwch yn cyflwyno ymateb electronig dyfynnwch y pennawd "Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Fyrddau Draenio Mewnol 2012" i'r neges yn y maes pwnc.
105. Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw 31 Awst 2012.
106. Cysylltwch â ni os hoffech gael y dogfennau hyn mewn fformat gwahanol (print bras ac ati) a byddwn yn ceisio eu darparu.
107. Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru o fod yn agored, ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, mae'n bosibl y caiff copïau o'r ymatebion a gawn eu cyhoeddi mewn crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. **Os nad ydych yn cydsynio i hyn, rhaid i chi nodi'n glir eich bod am i'ch ymateb gael ei drin yn gyfrinachol gan ddefnyddio'r opsiwn a roddir ar y ffurflen ymateb.**
108. Ni chaiff unrhyw ymwrthodiad cyfrinachedd a grëir gan eich system TG mewn ymatebion e-bost ei drin fel cais o'r fath.
109. Dylai ymatebwyr hefyd fod yn ymwybodol y gallai fod amgylchiadau lle y bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyfleu gwybodaeth i drydydd partïon ar gais, er mwyn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Materion Eraill i'w hystyried

110. Mae tri mater arall y bydd angen eu hystyried cyn dod i benderfyniad terfynol ynghylch sut y caiff swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru eu cyflawni yn y dyfodol.

Cynnal Cymru Fyw

111. Ym mis Ionawr 2012 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyrdd ar y dull newydd o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru, gan nodi manylion y dull ecosystem newydd o reoleiddio a rheoli'r amgylchedd. Disgwylir i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd ddod i ben ar 31 Mai 2012 a gellir ei weld drwy fynd i wefan¹¹ Llywodraeth Cymru.
112. Cyn dod i benderfyniad terfynol ynghylch sut y caiff swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru eu cyflawni yn y dyfodol bydd yn bwysig ystyried canlyniad yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd a goblygiadau hyn o ran rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru. Os caiff y dull o weithredu a gymeradwyir ei newid o ganlyniad i'r ymgynghoriad mae'n bosibl y bydd yn newid y sefyllfa o ran cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol.
113. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys manylion yr ystyriaethau hyn yn ei hymateb i'r ymgynghoriad hwn ar Fyrddau Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru.

Adnoddau Naturiol Cymru

114. Ym mis Chwefror 2012 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur ymgynghori ar sefydlu corff sengl, gan ymgorffori swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae'r papur ymgynghori hwnnw, a gaewyd ar 2 Mai 2012, hefyd yn nodi'r amserlen ar gyfer sefydlu'r corff sengl newydd a gellir ei weld drwy fynd i wefan¹² Llywodraeth Cymru.
115. Mae Adnoddau Naturiol Cymru yn cynnwys adran fer ar Fyrddau Draenio Mewnol, sy'n nodi ar lefel uchel rai o fanteision ymgorffori swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yn y corff sengl. Nid yw Adnoddau Naturiol Cymru yn gofyn unrhyw gwestiynau am hyn ond bydd yn dal yn bwysig ystyried unrhyw sylwadau a wnaed ynghylch swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol mewn unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw.
116. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys manylion yr ystyriaethau hyn yn ei hymateb i'r ymgynghoriad hwn ar Fyrddau Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru.

¹¹ Cynnal Cymru Fyw – Papur Gwyrdd ar gael o:
<http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/sustainingwales/?lang=cy>

¹² Adnoddau Naturiol Cymru – ar gael o:
<http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/singlebody/?lang=cy>

Swyddfa Archwilio Cymru

117. Ers pasio Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 rydym wedi clywed nifer o bryderon ynghylch y ffordd y mae Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-Coed a Gwastadeddau Gwynllŵg yn cael ei weinyddu a'i lywodraethu. Trosglwyddwyd y pryderon hyn i Swyddfa Archwilio Cymru i'w hystyried.
118. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon nid yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi gwybod am eu canfyddiadau eto. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yn llawn unrhyw ganfyddiadau y rhoddir gwybod iddi amdanynt gan Swyddfa Archwilio Cymru sy'n effeithio ar y modd y cyflawnir swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol.
119. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys manylion yr ystyriaethau hyn yn ei hymateb i'r ymgynghoriad hwn ar Fyrddau Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru.

Amserlen ar gyfer Penderfyniadau

120. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid creu corff sengl newydd ar 1 Ebrill 2013.
121. Caiff penderfyniadau ynghylch y ffordd y cyflawnir swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yn y dyfodol eu gwneud erbyn hydref 2012 pan gaiff ei nodi'n glir pryd y daw unrhyw newidiadau sydd eu hangen i gyflawni'r opsiwn a ffefrir i rym.

Atodiad A - Rhestr termau

A

Ardal Draenio Mewnol - ardaloedd o iseldir lle mae rheoli perygl llifogydd a draenio tir yn faterion sensitif.

Ardoll Arbennig – Rhywfaint o'r arian a delir i Fyrddau Draenio Mewnol gan Awdurdodau Lleol

Ardreth Draenio Amaethyddol - Swm o arian a delir yn flynyddol i'r Bwrdd Draenio Mewnol gan eiddo mewn ardal ddraenio.

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru - Corff Cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n atebol i Weinidogion Cymru.

Awdurdod Rheoli Risg – Diffinnir awdurdod rheoli risg yng Nghymru yn Adran 6 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 fel Asiantaeth yr Amgylchedd, awdurdod arweiniol llifogydd lleol, cyngor dosbarth ardal nad oes unrhyw awdurdod unedol ar ei chyfer, Bwrdd Draenio Mewnol ar gyfer ardal draenio mewnol sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru a chwmni dŵr sy'n cyflawni swyddogaethau mewn perthynas ag ardal yng Nghymru.

B

Bwrdd Draenio Mewnol – cyrff statudol annibynnol sy'n gyfrifol am systemau draenio tir mewn ardaloedd yng Nghymru a Lloegr lle y ceir anghenion draenio arbennig. Cyrff sefydledig ydynt sy'n gweithredu yn bennaf o dan Ddeddf Draenio Tir 1991 ac mae ganddynt bwerau caniataol i wneud gwaith i sicrhau bod eu hardaloedd yn cael eu draenio a bod lefel y dŵr yn cael ei rheoli.

C

Cwrs Dŵr Cyffredin – unrhyw Gwrs Dŵr nad yw'n rhan o brif afon y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdano neu, lle maent yn bodoli, fyrddau draenio mewnol.

D

Draenio – symud dŵr wyneb neu ddŵr o dan yr wyneb o ardal drwy brosesau naturiol neu artiffisial.

Dull Ecosystem - strategaeth ar gyfer rheoli tir, dŵr ac adnoddau byw mewn modd integredig sy'n hyrwyddo cadwraeth a defnydd cynaliadwy mewn ffordd deg.

E

Erydu arfordirol – yr arfordir yn cael ei erydu, fel arfer gan y gwynt a/neu effaith y tonnau.

F

G

H

I

J.

K

L

Llifogydd – dŵr sydd, dros dro, yn gorchuddio tir nad yw wedi'i orchuddio â dŵr fel arfer.

Llywodraeth Cymru – gweithrediaeth y llywodraeth yng Nghymru

M

N

O

P

Prif Afon - cwrs dŵr a ddangosir fel y cyfryw ar fap afonydd y mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gyfrifol amdani.

Q

R

Rheoli Lefel Dŵr – rheoli'r lefel a gyrhaeddir gan wyneb corff o ddŵr

S

T

Tâl Dŵr Ucheldir - Rhywfaint o'r arian a delir i Fyrddau Draenio Mewnol gan Asiantaeth yr Amgylchedd

U

V

W

Y

Z

Atodiad B – Rhestr o Ddogfennau Perthnasol

CYFFREDINOL

Teitl:	Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru
Disgrifiad:	Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Cymru yn nodi ein polisiâu ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Mae hefyd yn nodi fframwaith cyflawni sy'n diwallu anghenion Cymru nawr ac yn y dyfodol.
Ar gael yn:	wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epg/waterflooding/floodi ng/nationalstrategy/5706151/?lang=en

Teitl:	Adolygiad JBA o Fyrddau Draenio Mewnol
Disgrifiad:	Adolygiad Annibynnol o Fyrddau Draenio Mewnol yn Lloegr
Ar gael yn:	http://archive.defra.gov.uk/environment/flooding/who/idbreview.htm

YMGYNGHORIADAU

Teitl:	Adnoddau Naturiol Cymru
Disgrifiad:	Ymgynghoriad ar drefniadau arfaethedig ar gyfer sefydlu a chyfarwyddo corff newydd i reoli adnoddau naturiol Cymru.
Ar gael yn:	http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/eshlivi n gwalescons/?skip=1&lang=cy

Teitl:	Cymru Fyw – fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd - Ymgynghoriad ar y Fframwaith Amgylcheddol Cenedlaethol
Disgrifiad:	Mae ein Fframwaith newydd ar gyfer yr Amgylchedd Naturiol yn canolbwyntio ar reoli ein hamgylchedd yn ei gyfanrwydd yn hytrach na chanolbwyntio ar rannau ar wahân.
Ar gael yn:	http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/eshlivi n gwalescons/?skip=1&lang=cy

Teitl:	Cynnal Cymru Fyw
Disgrifiad:	Papur Gwyrdd ar ddull newydd o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru.
Ar gael yn:	wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/sustainingwales/?lang=en

Teitl:	Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr Drafft ac ymgynghoriad
Disgrifiad:	Mesur drafft ar gyfer deddfwriaeth newydd i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru a Lloegr. Cyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Ebrill 2009.
Ar gael yn:	www.official-documents.gov.uk/document/cm75/7582/7582.pdf

Teitl:	Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr Drafft: Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad a gafwyd ac a ystyriwyd gan Lywodraeth Cymru.
Disgrifiad:	Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr drafft a ystyriwyd gan Lywodraeth Cymru.
Ar gael yn:	wales.gov.uk/docs/desh/consultation/091119floodingresponsesen.pdf

Teitl:	Taking forward the draft Flood and Water Management Bill - The Government response to pre-legislative scrutiny and public consultation
Disgrifiad:	Ymateb Llywodraeth y DU i bob un o'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Dethol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn ei adroddiad ar y gwaith craffu a wnaed cyn y broses ddeddfu.
Ar gael yn:	www.defra.gov.uk/environment/flooding/documents/policy/fwmb/bill-consult-response.pdf

DEDDFWRIAETH

Teitl:	Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010
Disgrifiad:	Cafodd Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 Gydsyniad Brenhinol ar 8 Ebrill 2010. Fe'i pasiodd i gynnwys yr angen i ddiweddarau'r deddfwriaeth sy'n llywodraethu llifogydd ac erydu arfordirol
Ar gael yn:	www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/29/contents

Teitl:	Deddf Adnoddau Dŵr 1991
Disgrifiad:	Mae'r Ddeddf Adnoddau Dŵr yn diffinio rôl Asiantaeth yr Amgylchedd o ran llygredd dŵr, rheoli adnoddau dŵr, amddiffynfeydd rhag llifogydd, pysgodfeydd a mordwyo. Mae'n ymdrin â gollyngiadau i ddŵr wyneb a dŵr daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol ac mae'n rheoli gweithgarwch tynnu a chronni dŵr.
Ar gael yn:	www.legislation.gov.uk/ukpga/1991/57/contents

Teitl:	Deddf Draenio Tir 1991
Disgrifiad:	Deddf i gyfuno'r deddfiadau a oedd yn ymwneud â byrddau draenio mewnol ac â swyddogaethau'r cyfryw fyrddau a swyddogaethau awdurdodau lleol o ran draenio tir.
Ar gael yn:	www.legislation.gov.uk/ukpga/1991/59/contents

Teitl:	Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011
Disgrifiad:	Cafodd y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus Gydsyniad Brenhinol ar 14 Rhagfyr 2011. Mae'r Ddeddf yn rhoi i Weinidogion y pŵer, drwy orchymyn, i ddiddymu, uno neu addasu trefniadau cyfansoddiadol neu drefniadau ariannu, neu addasu neu drosglwyddo swyddogaethau'r cyrff cyhoeddus hynny a restrir yn Atodlenni 1 i 5 i'r Ddeddf ac mae'n nodi gwell gweithdrefn graffu ar gyfer y gorchmynion.
Ar gael yn:	www.legislation.gov.uk/ukpga/2011/24/contents

GWEFANNAU DEFNYDDIOL

- **Gwefan Cymdeithas yr Awdurdodau Draenio**
www.ada.org.uk
- **Byrddau Draenio Mewnol y mae'r cyfan neu ran helaeth ohonynt yng Nghymru**

Cil-y-Coed a Gwastadeddau Gwynllŵg	Rhannau Isaf Afon Gwy	Powysland
www.caldandwentidb.gov.uk	www.lowerweyidb.org.uk	www.powyslandidb.org.uk

- **Gwefan Cyngor Caerdydd**
www.cardiff.gov.uk/splashpage.htm
- **Gwefan Cyngor Dinas Casnewydd**
www.newport.gov.uk/dc/index.cfm

- **Gwefan Cyngor Sir Powys**
www.powys.gov.uk
- **Gwefan Cyngor Sir Fynwy**
www.monmouthshire.gov.uk
- **Gwefan Cyngor Swydd Henffordd**
www.herefordshire.gov.uk
- **Gwefan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra)**
www.defra.gov.uk

Atodiad C – Adolygiadau o Swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yn y Gorffennol

Mae gweithrediadau Byrddau Draenio Mewnol wedi'u hadolygu yn y gorffennol; cynhaliwyd yr adolygiad cyntaf yn 2006, a ddilynwyd gan adolygiad arall yn 2009. Fodd bynnag, nid yw canfyddiadau'r adolygiadau hyn wedi'u gweithredu ar hyn o bryd yn y system rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol newydd. Mae'r newidiadau ehangach a gynigir i'r ffordd y mae Cymru yn rheoli ei hadnoddau naturiol yn cynnig cyfle i ailystyried p'un a ddylid gwneud y newidiadau hynny, neu newidiadau eraill, nawr ai peidio.

Adolygiad o Fyrddau Draenio Mewnol, 2006

Cefndir

Ym mis Awst 2005, penododd Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig JBA Consulting i gynnal Adolygiad annibynnol o Fyrddau Draenio Mewnol yn Lloegr. Diben yr adolygiad oedd ystyried trefniadau sefydliadol a gweinyddol presennol Byrddau Draenio Mewnol yn Lloegr a rhoi cyngor ar drefniadau enghreifftiol addas er mwyn sicrhau bod Byrddau Draenio Mewnol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o ran rheoli perygl llifogydd mewn modd effeithlon, atebol a chynrychioliadol.

Er mwyn cyflawni prif nod yr adolygiad i feithrin dealltwriaeth o ofynion Byrddau Draenio Mewnol nawr ac yn y dyfodol, yn enwedig ar adeg pan oedd newidiadau sylweddol yn digwydd o ran gweithgarwch rheoli perygl llifogydd a gweithgarwch rheoli amaethyddiaeth, ymrwymodd JBA Consulting i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid.

Ymgynghorodd JBA â'r sector, gan gynnwys y Byrddau Draenio Mewnol eu hunain, Defra, Asiantaeth yr Amgylchedd, English Nature (Natural England bellach), yr [RSPB](#), talwyr yr ardrethi a'r ardollau a'u sefydliadau cynrychioliadol ([Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr](#), [y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad](#) a [Chymdeithas Llywodraeth Leol](#) (CLIL)), a phob rhanddeiliad arall sydd â buddiant uniongyrchol neu anuniongyrchol mewn gweithgarwch rheoli lefel dŵr a llifogydd yn ardaloedd Byrddau Draenio Mewnol.

Esgorodd yr ymgynghoriad ar nifer fawr o sylwadau ac awgrymiadau ynghylch y canlynol:

- perfformiad Byrddau Draenio Mewnol;
- sylwadau ar eu rôl yn y dyfodol;
- enghreifftiau o arfer da ac arfer drwg;
- rhwystrau a chyfyngiadau canfyddedig o ran newid.

Thema gyffredinol a nodwyd oedd bod gan y Byrddau Draenio Mewnol rôl bwysig i'w chwarae o ran rheoli perygl llifogydd a'u bod yn darparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol. Nododd y rhan fwyaf o'r ymgynghoreion fod angen cyngor proffesiynol amser llawn ar Fyrddau Draenio Mewnol a oedd yn ymdrin ag ystod eang o faterion gan gynnwys cyllid, peirianeg a'r amgylchedd.

Canfyddiadau Allweddol ac Argymhellion

Canfyddiadau allweddol

Yn dilyn proses ymgynghori a dadansoddi helaeth, cyflwynodd JBA Consulting ei adroddiad i Defra ar 28 Chwefror 2006. Roedd yr adroddiad yn un cynhwysfawr a nododd y cefndir i'r adolygiad, yr ymgynghoriad a rôl Byrddau Draenio Mewnol nawr ac yn y dyfodol.

Nododd yr adolygiad 21 o ganfyddiadau allweddol sy'n ymdrin ag amrywiaeth o faterion. Yn fras, gellir eu dosbarthu'n dri chategori fel y nodir isod:

Ariannol

- Codi a defnyddio Incwm yn lleol er mwyn sicrhau bod systemau draenio digonol, gweithgarwch rheoli llifogydd a dŵr ar lefel amgylcheddol a gwelliannau yn hyfyw yn ariannol.
- Bod y lefel o wasanaeth wedi'i chynnal yn ystod y pum mlynedd diwethaf a bod yr ardrethi a'r ardollau arbennig wedi'u cadw o fewn neu islaw'r gyfradd chwyddiant.
- Mae rhai Byrddau Draenio Mewnol yn llwyddo i godi incwm ychwanegol ac yn barod i ddefnyddio eu pŵer i fenthycu.
- Nid oes gan Fyrddau Draenio Mewnol llai o faint ddigon o incwm i gyflawni'r hyn a ddisgwylir gan gorff statudol.
- Mae angen canolbwyntio ar y gyfradd enillion orau yn hytrach na phrosiectau costau uchel y byddai eraill yn gallu eu cyflawni'n well.

Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd

- Mae Byrddau Draenio Mewnol yn darparu gwasanaethau draenio tir a rheoli llifogydd er budd 1.2 miliwn hectar o dir, 600,000 o bobl a 879,000 o eiddo.
- Gall llai o atebolrwydd lleol a llai o allu i reoli amcanion croes yn deg fod yn broblem lle mae'r ardal a gwmpesir gan y Bwrdd Draenio Mewnol yn rhy fawr.
- Mae'n anodd gweld sut y byddai cyrff statudol eraill sydd eisoes yn bodoli yn gallu darparu'r un lefel o wasanaeth â'r Byrddau Draenio Mewnol.
- Mae digon o weithgarwch mewn rhai achosion yn cyfiawnhau cyflogi staff rheoli proffesiynol amser llawn sy'n ymdrin â materion gweinyddol, cyllid, peirianeg a chadwraeth
- Yn gyffredinol mae Byrddau Draenio Mewnol yn ymateb yn dda i gyfeiriad a newid clir, pan gânt eu hesbonio a'u cyfiawnhau.

Cyflawni amcanion ehangach y llywodraeth

- Nid yw pob Bwrdd Draenio Mewnol yn ymwybodol o'i ddyletswyddau amgylcheddol ac yn eu cyflawni
- Fel rhan o'u rôl, mae angen i Fyrddau Draenio Mewnol fod yn barod i gyflawni amcanion ehangach y llywodraeth ac ystyried buddiannau dilys rhanddeiliaid ehangach yn eu prosesau gwneud penderfyniadau.
- Mae angen i'r llywodraeth bennu cyfeiriad cliriach ac mae angen monitro Byrddau Draenio Mewnol. Mae angen fframwaith cymorth tynnach.

- Mae angen gwella'r gydberthynas rhwng Byrddau Draenio Mewnol ac Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn defnyddio gwybodaeth a sgiliau'r ddau gorff yn well.

Argymhellion

Cynigiodd yr adolygiad chwe phrif argymhelliad cyffredinol ar drefniadau 'enghreifftiol' addas a fyddai'n sicrhau bod Byrddau Draenio Mewnol yn effeithlon ac yn atebol a'u bod yn cynrychioli buddiannau talwyr ardrethi draenio a buddiannau ehangach wrth gyflawni eu cyfrifoldebau o ran rheoli llifogydd.

Nodir yr argymhellion isod:

1. Dylid caniatáu i Fyrddau Draenio Mewnol barhau i gyflawni ei rôl o ran rheoli lefel dŵr mewn ardaloedd o iseldir ar yr amod eu bod yn diwygio eu trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli'r amgylchedd a sicrhau atebolrwydd a chynrychiolaeth lle y bo angen ac fel y nodir isod.
2. Mae'r asesiad rhagarweiniol yn awgrymu y gallai 44 o Fyrddau Draenio Mewnol eraill sy'n dal mewn bodolaeth yn dilyn y prosesau uno a diddymu presennol elwa o gael eu huno. Yn ogystal â'r rhain gallai 42 o Fyrddau Draenio Mewnol eraill elwa o gael eu huno neu eu grwpio.
3. Cred JBA Consulting mai Byrddau Draenio Mewnol eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y newid sydd ei angen. Fodd bynnag, dylai Defra roi cyfeiriad clir iddynt o ran yr angen i newid er mwyn bodloni gofynion corff rheoli lefel dŵr modern drwy gynllun gweithredu.
4. Bydd Byrddau Draenio Mewnol yn cael budd o gymorth i wneud y newidiadau hyn. Mae angen cytuno ar y ffynhonnell orau ar gyfer y cymorth hwn mewn unrhyw gynllun gweithredu.
5. Dylid nodi'n gliriach y ffordd y mae cyfrifoldebau a'r gydberthynas waith wedi'u rhannu rhwng pob Bwrdd Draenio Mewnol ac Asiantaeth yr Amgylchedd a ffurfioli hynny.
6. Nes y caiff argymhellion yr adroddiad eu gweithredu, dylid cyfyngu cymaint â phosibl ar unrhyw newidiadau radical pellach ac, yn enwedig, newidiadau i ddiffiniadau o gyrsiau dŵr cyffredin pwysig neu ddynodiadau prif gyrsiau dŵr cyffredin.

Casgliad

Daethpwyd i'r casgliad bod Byrddau Draenio Mewnol at ei gilydd yn darparu gwasanaeth boddhaol ac y gallant ddarparu arbenigedd a gwybodaeth am feysydd draenio integredig, rheoli lefel dŵr a rheoli perygl llifogydd. Yn gyffredinol mae angen atgyfnerthu agweddau ar eu trefniadau llywodraethu, eu cynrychiolaeth, eu hatebolrwydd mewnol a'u tryloywder. Mae cydweithio ag Asiantaeth yr Amgylchedd a chyflawni'r hyn y mae'n ofynnol neu y disgwylir i gorff statudol ei gyflawni yn faes allweddol i'w wella.

Wrth ystyried dyfodol Byrddau Draenio Mewnol daeth yr adolygiad i'r casgliad y byddai diddymu pob Bwrdd Draenio Mewnol yn cael effaith andwyol. Fodd bynnag, ni ddylid diystyru diddymu ardaloedd llai o faint. Gellid diddymu Byrddau Draenio Mewnol heb newid deddfwriaeth. Fodd bynnag, er bod manteision i'r opsiwn hwn megis system reoli integredig mae ffactorau megis colli llwybr cludo pwysig ar gyfer newid defnydd tir a gwella gweithgarwch rheoli tir yn drech na'r manteision hyn. Heb gyfarwyddyd allanol pellach,

rhagwelir na fydd newidiadau yn parhau i gael eu gwneud ar yr un cyflymder mewn Byrddau Draenio Mewnol. Fodd bynnag, nid ystyrir bod angen i Asiantaeth yr Amgylchedd ymgymryd â rôl Byrddau Draenio Mewnol ac nid dyna'r opsiwn a ffefrir.

Mae'r adolygiad yn cynnig mai'r opsiwn a ffefrir ar gyfer dyfodol Byrddau Draenio Mewnol yw eu had-drefnu a'u newid ymhellach, gan gyfuno ac atgyfnerthu trefniadau llywodraethu a rheoli Byrddau Draenio Mewnol. Byddai hyn o ryw gymorth i atgyfnerthu atebolrwydd i'r llywodraeth a'r cyhoedd.

Ar ôl yr Adolygiad

Nid ystyriodd yr Adolygiad Fyrddau Draenio Mewnol yng Nghymru. Fodd bynnag, croesawyd yr adolygiad a nodwyd y canfyddiadau gan Lywodraeth Cymru. Yn Lloegr, cafwyd ymdrech i uno Byrddau Draenio Mewnol llai o faint. Fodd bynnag, yn sgîl y llifogydd difrifol a welwyd yn 2007 cynhaliwyd adolygiadau pellach o'r broses rheoli perygl llifogydd ehangach.

Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr Drafft 2009

Ceir tua 160 o Fyrddau Draenio Mewnol yng Nghymru a Lloegr; mae Byrddau Draenio Mewnol yn gyrrff statudol annibynnol sefydledig sy'n gyfrifol am systemau draenio tir mewn ardaloedd lle y ceir anghenion draenio arbennig. Mae ganddynt bwerau i wneud gwaith i sicrhau bod lefel y dŵr yn cael ei rheoli, gan gynnwys gwneud gwaith amddiffyn rhag llifogydd ar gyrsiau dŵr cyffredin.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, lleisiwyd pryderon bod rhai Byrddau Draenio Mewnol yn amaethyddol-effeithlon, ar draul cadwraeth natur a pholisïau ehangach y Llywodraeth. Mae eu hatebolrwydd a'u hygyrchedd hefyd wedi'u hamau. Nodwyd rhai o'r materion hyn yn yr adolygiad a gyhoeddwyd gan JGB yn 2006.

Ni chynhwyswyd cynigion ar rôl Byrddau Draenio Mewnol yn y dyfodol yn y mesur rheoli llifogydd a dŵr drafft. Fodd bynnag, cyflwynodd yr ymgynghoriad ar y Mesur drafft gynigion ar gyfer diwygiadau i'w hystyried.

Cynigion yn y Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr Drafft

Nodwyd y cynigion ar gyfer diwygio rôl a threfniadau llywodraethu Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru a Lloegr ym mhapur ymgynghori'r Mesur drafft. Crynhoir y cynigion hyn isod.

- ***Caniatáu i Fyrddau Draenio Mewnol ffurfio consortia, cwmnïau preifat a modelau cyflawni arloesol eraill***
Yn Neddf Draenio Tir 1991 nid oes fawr ddim sail ar gyfer trefniadau consortia ac nid oes unrhyw weithdrefn fanwl ar gyfer eu ffurfio. Ni all Byrddau Draenio Mewnol sefydlu cwmnïau cyfyngedig/cyrrff corfforaethol na darparu gwasanaethau rheoli yn gyfnewid am ffi i Fwrdd Draenio Mewnol arall.

Wrth ganiatáu hyn, ni fyddai Byrddau Draenio Mewnol yn cael dirprwyo rheolaeth dros y modd y cyflawnir eu pwerau statudol i gyrrff corfforaethol eraill ond byddent yn cael sefydlu cyrff corfforaethol i ddarparu gwasanaethau rheoli.

- ***Symleiddio'r broses o newid ac uno ffiniau***
Mae uno yn broses lafurus nad yw'n gosteffeithiol ar hyn o bryd. Byddai symleiddio'r weithdrefn hysbysu a sicrhau hyblygrwydd o ran hysbysu'r rhai yr effeithir arnynt yn symleiddio'r broses.
- ***Llacio'r cyfyngiadau a osodir ar hyn o bryd gan Lythyr Medway***
Mae'r egwyddorion a nodir yn llythyr Medway¹³ yn cyfyngu ar ffiniau Byrddau Draenio Mewnol. Nid yw hyn yn darparu ar gyfer rheoli dalgylch y Bwrdd Draenio Mewnol mewn ffordd strategol na chyfannol. Dylai Byrddau Draenio Mewnol allu ymestyn eu ffin lle y bo hynny'n briodol. Mae'n rhaid dilyn y canllawiau ar sut i wneud hynny ac mae'n rhaid cwblhau proses dadansoddi ac ymgynghori fanwl.
- ***Trosglwyddo'r cyfrifoldeb am oruchwylio Byrddau Draenio Mewnol o Asiantaeth yr Amgylchedd i awdurdodau sirol a lleol***
Gwnaeth y Mesur rheoli llifogydd a dŵr drafft Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am reoli perygl llifogydd yn lleol. Byddai trosglwyddo'r cyfrifoldeb am oruchwylio Byrddau Draenio Mewnol i awdurdodau lleol yn ei gwneud yn bosibl i Fyrddau Draenio Mewnol gyflawni eu rôl arwain leol yn fwy effeithiol ac i Awdurdodau Lleol ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth Byrddau Draenio Mewnol i feithrin eu sgiliau a'u gwybodaeth eu hunain.
- ***Addasu aelodaeth Byrddau Draenio Mewnol***
Gall aelodau Byrddau Draenio Mewnol gael cryn ddylanwad o ran llywio gwaith ac agwedd y Bwrdd Draenio Mewnol ac ar ei bolisiau a'i arferion. Ychydig o gynrychiolwyr sydd gan awdurdodau lleol ar Fyrddau Draenio Mewnol a bydd dileu'r terfyn hwn yn sicrhau cynrychiolaeth sy'n cyd-fynd yn agosach â'i broffil gwariant.
- ***Caniatáu i Weinidogion lunio rheoliadau sy'n pennu strwythur Byrddau Draenio Mewnol***
Ers peth amser anogwyd ymdrechion i leihau nifer y Byrddau Draenio Mewnol er mwyn sicrhau gwell gweithgarwch ymgysylltu a rheoli. Fodd bynnag, araf fu'r cynnydd o ran uno Byrddau Draenio Mewnol. Dylai fod gan Weinidogion bwerau i bennu maint, ffurf a strwythur priodol ar gyfer Byrddau Draenio Mewnol.
- ***Arian Awdurdodau Lleol ar gyfer Byrddau Draenio Mewnol***
Ariennir Byrddau Draenio Mewnol ar hyn o bryd gan ardrethi draenio amaethyddol ac 'ardoll arbennig' a delir gan awdurdodau lleol. Mae'r trefniadau ariannu presennol a chynigion a wnaethom i ddileu'r ardoll arbennig a rhoi trefniadau asiantaethol neu gytundebol rhwng Byrddau

¹³ "Llythyr Medway" gan M.A.A.F. dyddiedig 28ain Mehefin 1930 a ddiffiniodd derfynau Byrddau Draenio Mewnol fel yr ardal hyd at wyth troedfedd uchlaw'r lefel llifogydd uchaf y gwyddys amdani p'un a yw'n ardal wledig neu'n ardal drefol.

Draenio Mewnol ac awdurdodau lleol yn ei lle yn codi pryderon ynghylch gwerth am arian.

- ***Adolygu'r taliadau cylchol rhwng Byrddau Draenio Mewnol ac Asiantaeth yr Amgylchedd***

Mae arian yn cael ei drosglwyddo rhwng Byrddau Draenio Mewnol ac Asiantaeth yr Amgylchedd i dalu am reoli dŵr sy'n llifo i mewn ac allan o ardal. Ar hyn o bryd mae'r ddau gorff yn talu rhywfaint o iawndal am y camau a gymerwyd gan y llall. Cynigiwyd y dylid adolygu'r gyfundrefn hon er mwyn gweld a oedd ei hangen o hyd.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Byrddau Draenio Mewnol a ddarparodd y rhan fwyaf o'r ymatebion a gafwyd ynghylch y cynigion a nodwyd uchod.

Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion y dylai Byrddau Draenio Mewnol rannu gwasanaethau a ffurfio consortia a chwmnïau cyfyngedig neu gymryd rhan ynddynt. Roedd y rhan fwyaf hefyd yn cytuno â chynigion i symleiddio gweithdrefnau ar gyfer uno ac ati, llacio cyfyngiadau a osodir gan lythyr Medway ac adolygu'r taliadau cylchol rhwng Byrddau Draenio Mewnol ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Roedd sawl Bwrdd Draenio Mewnol yn anghytuno â'r cynnig y dylai Awdurdodau Lleol ymgymryd â rôl oruchwylio Byrddau Draenio Mewnol a gyflawnir gan Asiantaeth yr Amgylchedd am resymau megis diffyg arbenigedd ac arian. Fodd bynnag, awgrymwyd bod dadl o blaid awdurdodau lleol yn gweithredu fel rhyngwyneb â'r cyhoedd a gellid ymestyn y rôl i gynnwys cydlynu a chysylltu camau gweithredu'r awdurdodau gweithredol yn gyffredinol drwy greu Partneriaethau Ardaloedd Lleol.

Cafwyd ymateb cymysg i gynigion i addasu aelodaeth Byrddau Draenio Mewnol a chaniatáu i Weinidogion Iunio rheoliadau sy'n pennu strwythur Byrddau Draenio Mewnol. Awgrymwyd y dylid rhoi blaenoriaeth i ystyried ffiniau dalgylchoedd. Fodd bynnag, gallai Gweinidogion ymyrryd i bennu strwythurau lle nad yw Byrddau Draenio Mewnol yn gwneud hynny neu lle na allant gytuno ar y manylion â'u Partneriaid Rheoli Perygl Llifogydd. Roedd pryderon a godwyd ynghylch addasu aelodaeth yn ymwneud yn bennaf â methiant Awdurdodau Lleol i fynd i gyfarfodydd byrddau.

Ymateb y Llywodraeth a Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

Oherwydd cyfyngiadau amser a lle ni chynhwyswyd y rhan fwyaf o'r cynigion a nodwyd uchod yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (y Ddeddf).

Cynhwyswyd y darpariaethau o ran consortia a'r ddyletswydd i Fyrddau Draenio Mewnol weithredu'n unol â strategaethau lleol a chenedlaethol a chydweithio ag awdurdodau llifogydd eraill yn y Ddeddf.

Yn ei hymateb i'r gwaith craffu a wnaed cyn y broses ddeddfu cadarnhaodd Llywodraeth y DU ar y pryd y dylai strwythur Byrddau Draenio Mewnol yn y dyfodol barhau i fod yn seiliedig ar ffiniau dalgylchoedd hydrologig yn hytrach na ffiniau gweinyddol awdurdodau lleol. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar y pryd o'r farn bod angen rhagor o waith i ystyried yr

union sail a meini prawf ar gyfer y fath broses ailstrwythuro sy'n ystyried manteision ffiniau sy'n bodoli eisoes a chyrrff llai o faint yn ogystal â manteision Byrddau Draenio Mewnol ar lefel dalgylch.

O ran caniatáu i Fyrddau Draenio Mewnol ymestyn eu ffiniau y tu hwnt i'r rhai y darperir ar eu cyfer gan Lythyr Medway, efallai na fydd angen darpariaethau deddfwriaethol. Roedd angen ystyried ymhellach sut y byddai Byrddau Draenio Mewnol mwy o faint sy'n cwmpasu tir uwch yn cyd-fynd â systemau ariannu a'r strwythurau newydd sy'n cael eu creu. Teimlwyd hefyd y dylid symleiddio'r broses uno a gwneud gorchmynion.

**Ffurflen Ymateb
i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

cyfeiriad e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

P'un o'r tri Opsiwn ar gyfer cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru yn y dyfodol rydych yn ei gefnogi a pham?

Yn eich barn chi, a oes unrhyw opsiynau eraill ar gyfer cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru yn y dyfodol y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried?

A oes gennych ragor o wybodaeth neu dystiolaeth rydych yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ei hystyried wrth ddod i'w phenderfyniad terfynol ynghylch cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru yn y dyfodol?

A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw Llywodraeth Cymru atynt o ran cyflawni swyddogaethau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru?

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi cyfeirio atynt, mae croeso i chi eu nodi isod:

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu cyhoeddi - ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: